# I. Dechreuadau

*Yr oedd tair ohonom, Mollie Reynolds, Hannah Harbury a minnau, yn cael coffi gyda'n gilydd, a gwelsom wraig un o aelodau'r staff yn mynd heibio. Yn yr oes gyn-ffeministaidd honno, yr arfer oedd cyfeirio at 'wraig yr athro hwn-a-hwn'. Beth bynnag, allai'r un ohonom gofio pwy oedd hi, a dyma ni'n cytuno bod sefyllfa felly'n chwerthinllyd.*

*Rhaid cofio mai dim ond un rhan o bump o'r nifer o fyfyrwyr sydd yma heddiw oedd yn y Coleg yr adeg honno; roedd y rhan fwyaf o'r staff yn byw yn y dref, a cherddai'r athrawon i'r Coleg, neu mynd ar gefn beic. Ychydig o dai oedd ar Waunfawr, ac roedd bron pob adran o'r Coleg yn yr hen adeilad.*

*Awgrymodd Mollie ein bod yn dechrau Clwb. Felly aethom ati i lunio llythyr a gwneud copïau. Nid oedd y fath beth a llungopïo yr adeg honno. Cawsom ein synnu gan yr ymateb; roedd pawb yn frwdfrydig, a chefais fy hun yn drysorydd y Clwb newydd hwn, er mawr anesmwythyd i'm gŵr!*

Dyna sut y disgrifiodd Mair Williams ffurfio Clwb Merched Prifysgol Cymru – neu Clwb Merched y Coleg fel y'i gelwid gyntaf – yn *Yr Angor* yn 1995 ar achlysur dathlu 40fed pen-blwydd y Clwb. Cofiodd yn ddiweddarach mai yn ystod digwyddiad yn y Coleg tua 1954, *tua'r adeg y daeth Goronwy Rees i Aberystwyth,* y digwyddodd hynny.

Cododd awgrym Mollie Reynolds *ein bod yn dechrau Clwb* o'r ffaith iddi fod yn aelod o glwb merched yn Ysgol Economeg Llundain pan oedd ei gŵr, Philip A. Reynolds, yn ddarlithydd yno cyn iddo gael ei apwyntio i Gadair Wilson Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn Aberystwyth yn 1950. Trwy'r clwb hwnnw *y daethai'r gwragedd i adnabod ei gilydd*.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Clwb Merched y Coleg yng Ngwesty Brenhinol y Belle Vue am 8 o'r gloch ddydd Iau, 13 Ionawr 1955. Dyma gofnodion y cyfarfod hwnnw:
*Trefnwyd y cyfarfod gan Mrs Mollie Reynolds, Mrs Hannah Harbury a Mrs Mair Williams er mwyn ffurfio Clwb Merched y Coleg. Gan mai dyma'r cyfarfod agoriadol, awgrymiadau a gafwyd gan yr aelodau yn hytrach na chynigion ffurfiol. Fodd bynnag, penderfynwyd y byddai'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yng Ngwesty'r Belle Vue am 8 o'r gloch ddydd Gwener cyntaf bob mis yn ystod y sesiynau academaidd.*

*Etholwyd swyddogion ar gyfer y Clwb:*
*Llywydd – Mrs Mollie Reynolds*
*Trysorydd – Mrs Mair Williams*
*Ysgrifennydd – Mrs Margaret Davies*
*Ynghyd â Phwyllgor o chwech: Mrs Hannah Harbury, Mrs Enid Davies, Mrs Gwilym Evans, Mrs Dorothy Meyler a Mrs Beryl Johnston.*

*Awgrymwyd swm o 10/6d fel tâl aelodaeth.*

*Siaradodd Mrs Christensen ychydig am Glwb Merched y Gyfadran ym Mhrifysgol Minnesota, a siaradodd Mrs Aaron am un tebyg ym Mhrifysgol Iâl lle bu'n aelod pan oedd ar ymweliad blwyddyn â'r Unol Daleithiau.*

*Cafwyd llawer o awgrymiadau gan yr aelodau ynghylch rhaglen y Clwb i'r dyfodol, a chynigiwyd y dylai'r pwyllgor lunio rhaglen o ddigwyddiadau i'w chyflwyno yn y cyfarfod nesaf ar 4 Chwefror. Cynigiwyd hefyd fod y pwyllgor yn llunio Cyfansoddiad i'w ddarllen yn y cyfarfod nesaf.*

Roedd Rhiannon Aaron, a siaradodd yn y cyfarfod, wedi mynd i Iâl yn 1952 gyda'i gŵr, yr Athro I. Aaron, pan oedd ef yn Athro ar Ymweliad, ac yn llawer o'i llythyrau adref cyfeiriodd at weithgareddau amrywiol Clwb Newydd-ddyfodiaid Iâl a'r mwynhad a gafodd yn nifer ohonynt rhwng Hydref 1952 ac Ebrill 1953:
*Ddydd Mercher mynychais fy nhe-parti Americanaidd cyntaf...Roedd y parti hwn yn gysylltiedig â Newydd-ddyfodiaid Iâl – corff i groesawu'r holl wragedd newydd. Nid dyna'r cyfarfod cyntaf*

*go-iawn (dwi'n mynd i hwnnw brynhawn fory) ond un o'r nifer fawr o bartïon bach rhagarweiniol a gynhelir mewn sawl tŷ gwahanol, er mwyn i chi ddod i adnabod rhai o'ch ardal eich hunain cyn mynd i'r cyfarfod cyntaf lle bydd yna 200-300 o bobl newydd (mae trosiant staff blynyddol yn anferthol yma).* (5 Hydref 1953)

*Neithiwr (dydd Llun) mynychais un o'r Grwpiau Gweithgareddau a gynhelir gan Glwb y Newydd-ddyfodiaid...Roedd yn union fel ein Darllen-Dramâu gartre...Mae mwy o'r grwpiau hyn yn cyfarfod yr wythnos hon. Dwi'n bwriadu mynychu nifer ohonynt (Cerddoriaeth, Dawnsio Sgwâr, ayb) ac yna penderfynu pa un dwi am gadw ato.* (12 Hydref 1953)

Ac ar ddiwedd eu blwyddyn yn Iâl ysgrifenna:
*Dwi wedi mwynhau'r Newydd-ddyfodiaid yn fawr iawn. Chollais i'r un cyfarfod drwy'r flwyddyn, a gwnes i gymaint o ffrindiau newydd. (Synnech chi faint o bobl sy'n dod i aros gyda ni pan ddown ni adre!) Dim ond dau gyfarfod sy ar ôl cyn diwedd y flwyddyn. Bydd yn flin gen i pan ddaw i ben.*

Mae'n siŵr bod anerchiad Rhiannon Aaron yng nghyfarfod cyntaf y Clwb wedi peintio darlun yr un mor fywiog a chroesawgar o weithgareddau Clwb Newydd-ddyfodiaid Iâl, ac wedi cyfrannu at frwdfrydedd yr aelodau dros eu Clwb newydd a'u hannog i fynychu'r ail gyfarfod ar 4 Chwefror.

Prif orchwyl y cyfarfod hwnnw oedd cyflwyno Cyfansoddiad y Clwb i'r aelodau, a dderbyniwyd gydag ambell welliant. Cymeradwyodd yr aelodau hefyd benderfyniad y Pwyllgor i *wahodd y gwragedd canlynol i ddod yn Aelodau Anrhydeddus o'r Clwb – y Fonesig Hughes-Parry, Mrs Ivor Evans, Mrs Jenkin Alban Davies, Mrs Goronwy Rees, Miss Margaret S. Davies, Mrs Myfanwy Ellis a Mrs Ifor L. Evans.* Roedd y saith yma yn wragedd neu'n weddwon cyn-brifathrawon, cyn-lywyddion neu gyn-aelodau Cyngor y Coleg, a gwraig y prifathro presennol. Byddai gwragedd prifathrawon a dirprwy-gangellorion y dyfodol hefyd yn cael gwahoddiad i fod yn Aelodau Anrhydeddus.

Hefyd cyhoeddwyd y rhaglen ar gyfer y pedwar cyfarfod oedd yn weddill yn 1955:
*Gwener, 4 Mawrth.* *Adloniant o ganeuon gwerin Cymraeg, Saesneg, Gwyddeleg ac Albanaidd gan Mrs Rhiannon Davies a Mrs Morgan-Jones.*
*Gwener, 1 Ebrill.* *Mr Scott Nisbet, Hyfforddwr yn yr Adran Gelf, ar 'Painters and Women'.*
*Gwener, 6 Mai.* *Mr Ivor Brown, Negri, ar 'Interior Decorating'.*
*Gwener, 2 Mehefin.* *Mrs Peggy Shapperson, Reno Nevada, ar 'American Food Habits'.*

Wedi cyflawni holl fusnes y Clwb, daethpwyd â'r cyfarfod i ben drwy ddangos tair ffilm: *Mexico, Colour in Clay* a *Switzerland.*

Ond fyddai dim rhaid i'r aelodau aros tan fis Mawrth i gyfarfod eto, oherwydd ddydd Mercher, 16 Chwefror, cafwyd ymweliad â Melinau Gwlân Leri yn Nhal-y-bont, ac *ar ôl taith ddiddorol drwy'r melinau cafodd y grŵp de yng Ngwesty'r Llew Gwyn.*

Ymddengys bod rhai o'r aelodau wedi cael eu denu gan Grwpiau Gweithgareddau Iâl, oherwydd cyhoeddwyd yng nghyfarfod 4 Mawrth y byddai *parti Bridge a Canasta yn cael ei gynnal yng Ngwesty'r Belle Vue i'r rhai sydd â diddordeb.* Ac felly y ffurfiwyd y cyntaf o is-grwpiau Clwb Merched y Coleg.

Ac i ddiweddu'r flwyddyn cynhaliodd y Clwb eu Gwibdaith Flynyddol gyntaf ar 8 Mehefin *pan aeth aelodau ar ymweliad â Phlas Gregynog, y Drenewydd, fel gwesteion i Miss Margaret S. Davies a ddarparodd de iddynt a'u tywys o gwmpas y Plas a'r gerddi*. Ac felly daeth blwyddyn gyntaf hynod lwyddiannus Clwb Merched Coleg Aberystwyth i ben gyda'r aelodau'n edrych ymlaen at y flwyddyn ganlynol a rhaglen lawn a mwy prysur.

Efallai nad oedd Aberystwyth yn debyg i Iâl gyda'i drosiant staff anferthol, ond roedd y Coleg yn tyfu ac yn newid wrth i aelodau staff newydd a'u teuluoedd symud i'r dref. Nifer y myfyrwyr yn y Coleg yn 1954-55 oedd 1,049, ac mae Prosbectws y sesiwn hwnnw yn rhestru 171 o staff dysgu

a gweinyddu, gan gynnwys 21 merch. Gallai aelodau benywaidd y staff ymuno â Chlwb Gwragedd y Staff, ond nid oedd clwb cymdeithasol tebyg ar gael ar gyfer gwragedd aelodau gwrywaidd y staff oedd yn dod i dref newydd ac iaith a diwylliant gwahanol. I gyflawni'r angen hwnnw y ffurfiwyd Clwb Merched y Coleg (neu Glwb y Gwragedd fel y'i gelwid gan rai), fel y dywed ail welliant y Cyfansoddiad newydd: *Nod y Clwb fydd hyrwyddo cyfathrach gymdeithasol ymhlith yr aelodau.*

Cychwynnodd gweithgareddau sesiwn 1955-56 gyda chyfarfod a chinio yng Ngwesty'r Belle Vue, gyda'r siaradwr gwadd Miss Gwenan Jones, Darlithydd Hŷn a Meistres mewn Dull yn yr Adran Addysg. Wrth annerch y Clwb cyfeiriodd at *y rhan bwysig a chwaraewyd gan wragedd y Coleg, a'i bod, wrth edrych o gwmpas yr ystafell, yn gweld mai un o swyddogaethau'r 'Adran Hyfforddi' oedd hyfforddi gwragedd ar gyfer aelodau Staff y Coleg.*

Heddiw byddai'r fath ddatganiad yn ennyn toreth o feirniadaeth a chondemniad, ond *yn yr oes gyn-ffeministaidd honno* roedd yn hollol dderbyniol, ac yn wir yn ddisgwyliedig, bod gwragedd yn gwasanaethu yn y cefndir, yn cefnogi gyrfaoedd eu gwŷr yn hytrach na bod yn ddarlithwyr neu'n weinyddwyr eu hunain. Yn hynny o beth nid oedd Aberystwyth yn wahanol i brifysgolion eraill, awdurdodau addysg, neu'r Gwasanaeth Sifil.

Byddai'r gwragedd yn byw yng nghysgod eu gwŷr o ran eu henwau hefyd, a Llyfr Cofnodion cyntaf y Clwb yn cyfeirio at aelodau fel Mrs Goronwy Rees, Mrs Jenkin Alban Davies, Mrs Ivor Evans, Mrs John Bowen, Mrs Gwilym Evans, Mrs Gwyn Jones, Mrs Tom Owen, Mrs Hugh Williams, ayb.

O'r 21 o aelodau benywaidd a restrir ym Mhrosbectws 1954-55, roedd yna 18 Miss a dim ond 3 Mrs, gan gynnwys warden Neuadd Carpenter a'r Athro Lily Newton a wnaethpwyd yn wraig weddw yn 1926, ddwy flynedd cyn iddi gael ei phenodi'n ddarlithydd mewn Botaneg yn Aberystwyth. Fel y dywedodd Leontia Slay (neu McCartan fel yr oedd pan ddaeth i Aberystwyth yn 1956 fel darlithydd mewn Sŵoleg), *Doedd fawr DDIM staff benywaidd priod. Y polisi sylfaenol oedd nad oedd gwragedd priod yn cael eu penodi i swyddi academaidd! Fe ddes i yma fel darlithydd sengl, ac roeddwn yn gallu parhau yn y swydd ar ôl i fi briodi yn Ebrill 1958.*

A beth y disgwylid i grŵp o unigolion hyddysg ac abl ei wneud â'u hamser, egni, creadigrwydd, a sgiliau trefnu? Yn Aberystwyth roedd Clwb Merched y Coleg yn cynnig cyfle iddynt ddefnyddio'u doniau, ac am 60 mlynedd aeth eu cyfraniad i fywyd y Brifysgol a'r dref ymhell y tu hwnt i *hyrwyddo cyfathrach gymdeithasol ymhlith yr aelodau.*

## II. Y Cyfarfodydd Misol

Sefydlwyd patrwm o chwe chyfarfod misol y sesiwn yn gyflym fel y rhaglen ar gyfer y Clwb. Byddai dau o'r cyfarfodydd fel arfer yn cynnwys siaradwyr allanol, dau arall yng ngofal yr aelodau eu hunain neu aelod o staff y Coleg, a Dydd Gŵyl Dewi a'r Nadolig oedd y lleill. Cynhelid y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) ym mis Mai, a'r Wibdaith Flynyddol ym Mehefin. Ond wrth i nifer yr is-grwpiau gynyddu, byddai llawer mwy o gyfleoedd i'r aelodau gwrdd yn ystod y flwyddyn.

Y siaradwr allanol blaenllaw cyntaf oedd y nofelydd Berta Ruck (Hydref 1956) oedd wedi bod yn byw yn Aberdyfi er 1939, ond er gwaethaf ei hamlygrwydd, nid hi oedd dewis cyntaf y Clwb. Yn anffodus roedd Joyce Grenfell a'r Fonesig Sybil Thorndike wedi methu dod.

Pe na bai enwogion ar gael, y dewis fyddai unigolion mewn swyddi cenedlaethol, megis J. Noel White, Dirprwy Gyfarwyddwr y Cyngor Dylunio Diwydiannol (1960), a Glyn Davies, Cyfarwyddwr y Labordy Fforensig, Preston, a oedd yn gyn-fyfyriwr (1962). Dr Roger Webster, Cyfarwyddwr Cyngor Celfyddydau Cymru, oedd y dewis yn 1963, yntau hefyd yn gyn-fyfyriwr a fyddai'n dychwelyd i'r Coleg yn 1978 fel Athro Addysg, a bu ei wraig, Ivy, yn aelod gweithgar o'r Clwb am nifer o flynyddoedd.

Yr un flwyddyn daeth Miss Nan Davies o'r BBC i siarad am ei gwaith fel cynhyrchydd yng Nghaerdydd. Daeth Syr Ben Bowen Thomas yn 1966, ac yn 1971 Dr William Evans, ffisegydd Harley Street wedi ymddeol, o Dregaron. Ym mis Chwefror 1973 daeth Miss Eurwen Richards, cyn-fyfyriwr, darlithydd a warden Neuadd Carpenter a Phenbryn, *sydd bellach yn Dechnolegydd Llaeth Marks & Spencer, i siarad ar 'Penny Bazaar to Superstore: behind the scenes at Marks & Spencer'.*

Y Fonesig Eirene White, aelod o Gyngor y Coleg a Llys y Llywodraethwyr, a merch i Thomas Jones, cyn-Lywydd Aberystwyth, oedd y siaradwr yn 1974, ac yn 1984 daeth y Fonesig Mary Warnock i draddodi Darlith Goffa Rachel Creed. Roedd Miss R.M. Creed wedi bod yn ddarlithydd yn yr Adran Addysg ac yn aelod cynnar o'r Clwb. Ym mis Chwefror 1986 siaradodd P.D. James ar 'Making Crime Pay', ac un a wahoddwyd i'r cinio cyn y cyfarfod gyda swyddogion y Clwb oedd Auriel Watkin o'r Adran Addysg a fu *ar un adeg yn gyd-weithiwr i P.D. James.* Y prif siaradwr ym mis Hydref 1994 oedd Rosie Swales, awdur a theithiwr a oedd wedi cyflawni taith arwrol drwy Chile ac wedi hwylio ar draws yr Iwerydd ar ei phen ei hun. Ac yn eu cyfarfod cyntaf ym mis Hydref 1997 *siaradwr mwyaf nodedig y Sesiwn* oedd yr awdur a'r ddarlledwraig Mavis Nicholson.

Cafodd y Pwyllgor dipyn o foddhad o ddenu'r fath siaradwyr i Aberystwyth, ond parhad llwyddiant Clwb Merched y Coleg a roddodd iddynt yr achos mwyaf i ddathlu. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf sesiwn 1976-77 yn Neuadd y Cambrian *lle daeth 85 aelod ynghyd, gan gynnwys 18 o'r aelodau gwreiddiol, i ddathlu 21 mlynedd Clwb Merched y Coleg. Roedd Morfudd Moelwyn Hughes wedi gwneud teisen pen-blwydd, a'r Grŵp Blodau wedi gwneud 21 o drefniannau gan ddefnyddio lliwiau coch a gwyrdd y Coleg i addurno'r ystafell.* Adroddodd Rhiannon Aaron, Beryl Johnston a Peggy Wynn Jones hanes y Clwb, a chynigiodd Mair Williams *lwncdestun ar gyfer 21 mlynedd nesaf Clwb Merched y Coleg.*

Cynhaliwyd y dathliadau 30 mlynedd yn 1985 yn yr Adran Gerdd, lle'r addurnwyd yr ystafell eto gan y Grŵp Blodau, ond y tro hwn gwnaethpwyd y deisen gan Peggy Jones. Yn Ystafell Seddon y cynhaliwyd dathliadau'r 40, gyda'r Arglwydd Emlyn Hooson, CF, cyn-Aelod Seneddol a chyn-fyfyriwr, yn siaradwr gwadd. Adeg dathlu'r Hanner Canmlwyddiant y siaradwr gwadd oedd Emrys Wynn Jones, cyn-Gofrestrydd y Coleg, a siaradodd ar y testun 'College Women: Radical Ladies', ac adroddodd yr aelodau gwreiddiol Mollie Reynolds, Mair Williams, Mary Llewelfryn Davies, Meg Bowen, Beti Edwards a Mrs Anthony Jones eu profiadau dros yr hanner can mlynedd.

## III. Arddangosiadau a Chyflwyniadau

Roedd cyfarfodydd misol arferol Clwb Merched y Coleg, lle caed siaradwyr allanol, o natur fwy ymarferol. Rhoddwyd dangosiadau coginio gan gynrychiolydd y Bwrdd Nwy Rhanbarthol (1956), Cynghorydd Gwasanaeth Cartref Hŷn (1961), cynrychiolydd Awdurdod Datblygu'r Diwydiant Moch (1963) a chan economegydd o'r Ganolfan Gwybodaeth Bwyd (1967). Testun cyfarfod Rhagfyr 1998 oedd 'Hand-made Chocolates with a Seasonal Flavour', a'r Nadolig canlynol roedd blasu gwin ar y fwydlen. Yr un flwyddyn y siaradwr oedd Elisabeth Luard, awdur coginio a newyddiadurwr oedd yn byw yn Ystradmeurig.

Testunau poblogaidd eraill oedd dangosiadau ffasiwn a harddwch. Ym mis Tachwedd 1955 siaradodd Mrs Gronow o Yardleys ar 'Beauty Culture', ac yn Nhachwedd 1958 gwelodd dros 100 o aelodau *Orymdaith Modelau wedi'i chyflwyno a'i harwain gan Mrs Alison Coates*. Cafwyd anerchiad ar 'Developments and Achievements in Modern Hand Knitting' ym mis Ebrill 1959 gan aelod o'r Sefydliad Gwlân Rhyngwladol. Daeth 130 o aelodau a gwahoddedigion i Neuadd y Cambrian ym mis Chwefror 1962 ar gyfer *anerchiad ar ofal croen a cholur gan Mrs Stafford Mitchell o 'Beauty Counselors', sioe ffrogiau gan 'Marie', Ffordd y Môr, a steiliau gwallt gan 'Patricia' o Ffordd Portland*.

Yn Nhachwedd 1975 cyflwynwyd *Sioe Ffasiynau o ddillad a gynlluniwyd ac a gynhyrchwyd gan Sylvia Mary (Mrs Sylvia Kingswood)* yn y Ddarlithfa Gyfunol, Coleg Llyfrgellwyr Cymru, Llanbadarn. Yng nghyfarfod Hydref 1984 cafwyd 'An Evening of Fashion and Beauty with Capricorn Gowns ans Salon Tlws', a B. Virdi o The Body Natural and Healing Beauty Centre oedd y siaradwr yn Chwefror 1996.

Testun poblogaidd arall oedd garddio. Yn Nhachwedd 1962 cafwyd cyngor ar 'Planning a Garden' gan Mr Basil Fox, Curadur y Gerddi Botaneg ar Benglais, ac ym mis Chwefror 1975 siaradodd yr un gŵr ar 'Seaside Gardening.

'Your Home is Your Own' oedd teitl anerchiad Gwyneth Francis-Jones ar gynllunio, cynlluniau lliwiau a deunyddiau newydd yn Nhachwedd 1972, ac yn Nhachwedd 1990 y siaradwr oedd Delyth Wilson o Y Cam Nesaf, Stryd y Farchnad, a roddodd i'r aelodau *fewnolwg o waith cynllunydd cartref*.

Cafwyd siaradwyr ar bynciau cymdeithasol a rhyngwladol hefyd, ac ymhlith y testunau oedd y Ganolfan Technoleg Amgen (2004), diogelwch bwyd (2008), a newid hinsawdd (2013).

Ymhlith y siaradwyr lleol yn y cyfarfodydd misol oedd Gwyn Martin o'r Fferyllwyr Taylor Lloyd (1961 ac 1966), a hefyd ei wraig Jean (1969). Yr arlunydd Mary Lloyd Jones (1980); Margaret Evans, 'Aberystwyth Ddoe' (1982); Rachel Rowlands o Laethdy Rachel (1990), a Sue Balsom, Gwraig Fusnes y Flwyddyn 2004 (2007). Cynrychiolwyd y proffesiwn meddygol hefyd: Dr Richard Edwards (1983); Dr David Lewis (1987); Mr J. Edwards, llawfeddyg yn ysbyty Bronglais (1989); Dr John Hughes (2002) a'r deintydd Illtyd Griffiths (2014), yn ogystal â gwleidyddion: Cynog Dafis (2002) ac Elystan Morgan (1972, 1974 a 2006). Yn 1974, dan y teitl 'A Cause for Concern', atebodd panel o arbenigwyr lleol – N. Greenwood, Rheolwr Ardal y Rheilffordd Brydeinig, J. Kendall Harris, Clerc Tref Aberystwyth, Elystan Morgan, AS Ceredigion, a John Phillips, Cyfarwyddwr Addysg Ceredigion – gwestiynau gan 75 aelod o'r Clwb.

Roedd aelodau staff y Brifysgol hefyd yn siaradwyr cyson. Ym mis Hydref 1958 cafwyd anerchiad gan T. Maelgwyn Davies, y Cofrestrydd, ar raglen adeiladu newydd y Coleg, 'The Next Five Years', ac yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Clwb yn 1960, *cynigiwyd, eilyddiwyd a derbyniwyd y byddai'r Clwb yn trefnu ymgyrch arbennig i gefnogi Cronfa Apêl y Coleg*. Y Prifathro Thomas Parry oedd y siaradwr a agorodd sesiwn 1967-68, ac fe'i cyflwynwyd gan Lywydd y Clwb am y flwyddyn, sef Mrs Enid Parry, ei wraig. Bu'r Prifathrawon Goronwy Daniel (1972) a Derec Llwyd Morgan (1966), a'r Is-Ganghellor yr Athro April McMahon hefyd ymhlith y siaradwyr gwadd. Ym mis Hydref 1990 anerchwyd y Clwb gan ei Lywydd Anrhydeddus, Dr Jane Morgan, pan oedd ei gŵr, Kenneth O. Morgan, yn Brifathro.

Yn 1972, ym Mlwyddyn Canmlwyddiant y Coleg, y siaradwr oedd Dr E.L. Ellis o'r Adran Hanes, awdur hanes swyddogol y Coleg, ac ni lwyddodd toriad trydan, a olygodd fod yn rhaid i Dr Ellis orffen ei sgwrs *wrth olau cannwyll a fflachlampau*, i amharu ar fwynhad yr aelodau.

Y cyfarfod cyntaf i gael ei annerch gan aelod o'r Clwb oedd hwnnw yn Chwefror 1956 pan ddangoswyd sleidiau lliw o'u hymweliad diweddar â'r Unol Daleithiau gan Joan Conway a'i gŵr Steve, a oedd wedi ymuno â'r Adran Addysg ar ddechrau'r sesiwn. Daeth Joan Conway yn aelod hirdymor o'r Clwb tan ei marwolaeth yn 2014, gan weithredu fel Llywydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd yn ystod y cyfnod hwnnw – fel y gwnaeth Gwyneth Trott, Margaret Bateman, Gillian Manton a Sheila Jones hefyd yn eu tro.

Ym mis Tachwedd 1956 *rhoddodd pedair o'n haelodau ddisgrifiadau byw o'u teithiau tramor...Sbaen gan Mrs Johnston, Seland Newydd gan Mrs Beacham, Awstralia gan Mrs Mansel Davies, ac yna Canada gan Mrs Gwilym Davies.* 'Holidays Abroad' oedd y testun hefyd ar gyfer Elizabeth Davies, Gwyneth Trott a Geraldine Walker (1957). Siaradodd Dr Gwendolen Rees am ei hymweliad â Ghana (1961), Rhiannon Steeds am Japan (1969), a Betty Loyn am ei hymweliad

â Nepal (1985). Ond yn agosach i gartre, yn 1998 siaradodd Ivy Webster am ei phlentyndod ar Ystad Stackpole, sir Benfro, a galwyd ar blant rhai o'r aelodau i fod yn siaradwyr hefyd: Gwen Aaron ar ei hymweliad â Pheriw (1988); Catrin Webster ar 'Art and Landscape' (2004), a Janet Thomas ar 'Working in Publishing' (2005).

## IV. Cyfarfodydd y Nadolig a Mis Mawrth

Ond yng nghyfarfodydd y Nadolig a Gŵyl Ddewi roedd gan yr aelodau rannau mwy amlwg. 'Dramatic Evening' oedd y cyfarfod Nadolig cyntaf, yn Neuadd yr Arholiadau, yr Hen Goleg, yn Rhagfyr 1956, gyda pherfformiadau o *The Charwoman's Daughter* a *The Late Miss Cordell*, y ddwy yn cael eu perfformio a'u cynhyrchu gan aelodau'r Clwb. Yn dilyn y perfformiad cafwyd swper bys-a-bawd yn y Cwad, *wedi'i baratoi gan Miss Garner gyda chymorth aelodau'r Clwb a'r Pwyllgor*. Buont yn canu carolau hefyd, i gyfeiliant Charles Clements o'r Adran Gerdd, a *gorffennodd y noson gydag Amy Parry-Williams yn canu Cân y Coleg.*

Y Nadolig dilynol y lleoliad oedd ffreutur Undeb y Myfyrwyr (bellach Neuadd Joseph Parry), ac ar ôl bwyta *cafwyd adloniant byr. Adroddodd yr Athro Treharne, canodd Mrs Morgan Jones a Mrs Betty Evans, a chanwyd y piano gan Mrs Nosworthy. Dilynwyd yr adloniant gan gêmau, cystadlaethau a chanu carolau. Y tâl ar gyfer y noson i aelodau a'u gwŷr oedd 6/- yr un.*

Dros y blynyddoedd byddai dathliadau'r Nadolig yn achlysuron ar gyfer aelodau'r Clwb, a gellir olrhain dechreuadau'r Grŵp Drama a'r Côr i'r cyfarfodydd hyn gan mai nhw oedd fel arfer yn darparu'r adloniant. *Rhaglen Nadolig* o ganeuon a darlleniadau (1960). *Gorymdaith Ffasiynau yn dangos y newidiadau mewn ffasiynau merched o 1860 i'r presennol, wedi'i chyflwyno gan y Grŵp Drama. Canodd y Côr nifer o ganeuon dan arweinyddiaeth Mr Charles Clements.* (1968) *Darparwyd adloniant gan y Côr a'r Grŵp Drama ar y testun CARIAD*. (1969) *Darparwyd adloniant ar y cyd gan y Clwb Drama – fersiwn talfyredig o 'Murder at the Red Barn' – a'r Côr, a ganodd ddwy gân dan arweinyddiaeth Mr Charles Clements.* (1970) *Cyfarfod Nadolig yn nwylo'r Grŵp Drama a ddarllenodd ohebiaeth merched enwog o'r 19eg ganrif – 'The Private Lives of Famous Women'. Hefyd canodd y Côr ganeuon dan arweinyddiaeth Charles Clements.* (1971) *Cyfarfod Nadoligaidd gan y Grŵp Drama a'r Côr ar 'Women at UCW: A Pageant of the Role of Women Students Through the Years' a gasglwyd gan Mrs Sonia Dobson*. (1972) Perfformiwyd hwn yn Theatr y Werin, *y theatr newydd ar Benglais*, a oedd newydd gael ei chwblhau yr hydref hwnnw.

Ambell waith byddai'r aelodau eu hunain yn dwyn atgofion am 'Christmases Spent Abroad': Charlotte Johnston (Sweden), Brigitta Heller (Awstria), Mercedes Mills (Ariannin), Mair Williams (UDA), a Dorothy Williams (Nigeria) (1967). Ailadroddwyd rhai o'r atgofion hyn gan yr aelodau yn 1981, ac yn 2001 adroddodd Paula Thomas, Jennifer John ac Ann Green am eu profiadau o'r Nadolig mewn gwledydd eraill.

Ar adegau eraill byddai grwpiau allanol yn cael gwahoddiad i ddarparu'r adloniant: *Noson o adloniant gan Mrs Emily Davies a phum myfyriwr o Adran Ddrama CPC ar 'y Nadolig Cristnogol o'i gymharu â'r Nadolig seciwlar'*. (1979) *Noson Gerddorol yn yr Adran Gerdd wedi'i darparu gan Fyfyrwyr CPC.* (1986) *Showtime Singers Songs For a Winter Evening'* (2010).

Gan fod y Clwb bob amser yn cyfarfod ar ail ddydd Gwener y mis, fyddai cyfarfodydd mis Mawrth byth yn disgyn ar Ddydd Gŵyl Dewi, ond gwnâi'r Pwyllgor ymdrech i gael thema Gymreig ar gyfer y cyfarfod misol, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar.

Cynhaliwyd y cyfarfod Cymreig cyntaf yn 1956 *i anrhydeddu Dydd Gŵyl Dewi yn Neuadd Ddawns Gwesty Brenhinol y Belle Vue. Canodd Mrs Megan Jones Pierce ddau grŵp o ganeuon Cymraeg, a Mrs Betty Evans ddau grŵp o ganeuon Clasurol a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan yr Athro Parry-Williams.* Y flwyddyn ganlynol *roedd y Clwb yn ffodus i gael fel eu siaradwr, Mrs*

*Amy Parry-Williams, un o'u haelodau mwyaf dawnus, a roddodd inni anerchiad diddorol, addysgiadol ac artistig ar ganeuon gwerin Cymraeg.* Yn 1958 *siaradodd yr Athro David Williams, Athro Hanes Cymru Syr John Williams, ar 'The Welsh Cultural Heritage',* yn enwedig yr iaith, llenyddiaeth, a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Yn 1961 *cafwyd Rhaglen o ganeuon gwerin Cymraeg a chanu penillion gan Sian Emlyn (Mrs Owen Edwards), cerddoriaeth delyn gan Miss Ann Lloyd, ac anerchiad gan Dr Gwyn Williams ar Dewi Sant*. Yn 1962 trefnwyd y rhaglen gan Enid Parry: *Canodd Miss Meinir Lewis, cyn-fyfyriwr, ddetholiad o ganeuon gwerin Cymraeg, a chanodd Miss Bennett-Owen, myfyrwraig bresennol, benillion a cherddoriaeth arall ar gyfer y delyn. Ac yn ystod egwyl fer darllenodd yr Athro Gwyn Jones ran o'i nofel newydd* [The Walk Home]. Gwahoddwyd Elinor Bennett-Owen eto y flwyddyn ganlynol, y tro hwn i gyfeilio i'r Fonesig Amy Parry-Williams. Trefnwyd y rhaglen gan y Fonesig Amy, ei chwaer Mary Llewelfryn Davies a Mair Jones.

Yn 1969 siaradodd David Jenkins, *Llyfrgellydd newydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar Wasg Gregynog gyda chasgliad o lyfrau oedd wedi'u darlunio a'u rhwymo'n hardd.* Rhai eraill a siaradodd yng nghyfarfodydd mis Mawrth dros y blynyddoedd oedd: Elystan Morgan (1972); yr Athro E.G. Bowen (1973); Minwel Tibbott, Amgueddfa Werin Sain Ffagan (1974); Peter Smith, Comisiwn Henebion Cymru (1975); Jane a Michael Frost, aelodau o Urdd Gofaint Aur ac Arian Cymru ar 'Gold and Welsh Culture' (1976); Dr J. Geraint Jenkins, Amgueddfa Werin Sain Ffagan (1978); Geraint Talfan Davies, Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes HTV (1979); Dr Prys Morgan (1987); Tom Arfon Owen, Llywydd Cyngor Celfyddydau Cymru, yn siarad am waith y Cyngor (1989); Miss Gaenor Howells, Gwasanaeth Byd y BBC (1993); Miss Teleri Bevan, BBC (1994), a Robin Huw Bowen, y telynor teires (1998).

Yn 1995 y noson Gymreig oedd Sioe Ffilmiau gan yr Archif Ffilm a Theledu, Parc Gwyddoniaeth Aberystwyth, ond nid dyma'r tro cyntaf i'r Clwb fwynhau sioe ffilmiau. Dangoswyd tair ffilm deithio yn eu hail gyfarfod yn 1955, ac yn 1957 fe welson nhw *Les Vacances de M. Hulot*, y gomedi Ffrangeg glasurol, gyda'r actor Jacques Tati. In 1959, *trwy garedigrwydd D.M. Davies, rheolwr Sinema'r Celtic, dangoswyd y ffilm 'Run For Your Money'* yn y Belle Vue, ac yn 1960, drwy drefniant tebyg, gwelsant dair ffilm. Fodd bynnag, y man cyfarfod y tro hwn oedd yr Adeilad Bioleg, Penglais, ac yn 1966 dychwelodd yr aelodau i'r Campws, ond y tro hwn i Ddarlithfa'r Gwyddorau Ffisegol i weld ffilm Ffrengig hyd llawn o'r enw *The Suitor* (1966). A Darlithfa'r Gwyddorau Ffisegol fyddai'r man cyfarfod am rai blynyddoedd, i wylio ffilm Ffrengig, *His Greatest Role* (1967); ffilm iasol Pwyleg ddoniol, *Gangsters and Philanthropists* (1968); comedi Rwsieg, *Beware Automobile* (1970), a ffilm Ffrengig arall, *The Red Inn*, yn 1971.

## V. Adeiladau ac Ystafelloedd

Ymwelodd aelodau ag adeilad y Gwyddorau Ffisegol am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 1964 pan ddangosodd yr Athro Granville Beynon ffilm wyddonol ar yr haul iddynt, ac yna cawsant daith o gwmpas yr adeilad a oedd newydd gael ei agor y mis Mai blaenorol. Bu'r Clwb bob amser yn gefnogol iawn i'r datblygiadau ar Benglais, ac roedd aelodau wedi bod ymhlith y cyntaf i berfformio ar lwyfan Theatr y Werin.

Am y ddwy flynedd gyntaf cynhaliwyd y cyfarfodydd misol yng Ngwesty Brenhinol y Belle Vue, ond o fis Ionawr 1957 hyd Chwefror 1978, y man cyfarfod oedd Neuadd y Cambrian yn Swyddfeydd y Sir, Gwesty'r Queens gynt. Fodd bynnag, yn y CCB yn Nhŷ'r Staff yn 1978, penderfynodd y Pwyllgor *oherwydd y nifer fach ar gyfartaledd sydd yn bresennol yn y cyfarfodydd misol, y byddai'n well cynnal y cyfarfodydd hyn ar dir y Coleg*.

Roedden nhw wedi ceisio amrywio lleoliad eu cyfarfodydd misol yn y gorffennol, ac wedi penderfynu yn CCB 1975 y byddai tri chyfarfod o hynny ymlaen yn cael eu cynnal yn Neuadd y Cambrian, un ar Gampws Llanbadarn, un yn y Theatr Fotaneg, a'r olaf yn Brynamlwg, *y*

*Ganolfan Chwaraeon a Chymdeithasol newydd*. Glynwyd wrth y trefniant hwn tan Hydref 1978 pan gofnodwyd eu bod *wedi manteisio ar y cyfle i gynnal ein cyfarfodydd yn Ystafell Seddon, yr Hen Goleg, sy newydd gael ei hadnewyddu.* Roedd yr ystafell honno ar gael bellach o ganlyniad i'r adeiladu ar Benglais. Agorwyd Llyfrgell Hugh Owen yn 1976 a symudwyd y rhan fwyaf o'r llyfrgelloedd adrannol, gan gynnwys y casgliadau ieithoedd modern a fu yn Ystafell Seddon, i mewn i'r llyfrgell newydd. O hynny ymlaen, tan Fehefin 2014, cynhelid cyfarfodydd misol y Clwb yno.

Am flynyddoedd roedd y Pwyllgor wedi ceisio dod o hyd i fan sefydlog ar gyfer y Clwb yn y Coleg. Yn CCB 1961 cofnodwyd bod *Mrs Mansel Davies wedi pwysleisio'r angen am gartref parhaol i'r Clwb – pwynt oedd wedi'i bwysleisio yn adroddiad yr Ysgrifennydd – a chredai efallai y byddai modd gofyn i'r Cofrestrydd am gymorth yn y mater hwn*. Yn CCB 1962 darllenwyd llythyr gan y Cofrestrydd yn dweud y byddai cais y Clwb *yn cael ei ystyried yn gydymdeimladol pan fyddai'r Adrannau Mathemateg a Ffiseg yn symud i'r adeilad newydd*. Ond flwyddyn yn ddiweddarach ysgrifennodd y Cofrestrydd eto gan ddweud na fu'n bosibl *dod o hyd i gartref ar gyfer Clwb y Merched yn aden ddeheuol yr adeilad ar ôl i'r Adran Ffiseg adael*. Ond awgrymodd eu bod yn gwneud cais i *Bwyllgor yr Ystafell Gyffredin i gadw ystafell i ni yn y Tŷ Staff newydd yn Maes Lowri*. Ond roedd hi'n fis Medi 1965 cyn i'r Llywydd, Megan Beynon, allu adrodd *ei bod wedi clywed gan y Dirprwy Gofrestrydd y byddai dwy ystafell yn Penroc, Rhodfa'r Môr, ar gael ar gyfer y Clwb*. Ac ar 8 Mehefin 1966 trefnwyd bore coffi *er mwyn i'r aelodau gael cyfle i weld Ystafell y Clwb yn Penrock*.

Trafodwyd dodrefnu cegin a phrif ystafell Penrock yn aml yn ystod y cyfarfodydd dilynol: *cylch nwy dwbl er mwyn gallu berwi tegell a sosban laeth...efallai y byddai'n bosib cael bwrdd o stôr y Coleg...cymeradwywyd archebu dwsin o gadeiriau stacio...*[penderfynwyd prynu] *pedair cadair Ashford a phedair cadair Newlyn...36 o gwpanau, soseri a llwyau...a gofynnwyd* [i'r Ysgrifennydd] *brynu tri phlât mawr, dau debot, sgwriwr a chwe lliain llestri fel offer ychwanegol ar gyfer Penrock*.

Gan fod yr ystafelloedd hyn ar gael iddynt, gallai'r Clwb drefnu cyfarfodydd yn ystod y dydd; dyna lle byddai'r Grwpiau Trafod yn cyfarfod, a defnyddiai'r Grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol yr ystafelloedd *i ddiddanu'r Hen Bobl ar eu gwibdeithiau*. Cynhaliai'r Clwb foreau coffi misol yno hefyd, ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r Coleg.

Ond ymhen ychydig flynyddoedd collodd y Clwb eu hawl neilltuedig ar yr ystafelloedd. Yn 1968 gofynnodd y Swyddfa Gyrfaoedd i gael defnyddio Ystafell y Clwb *ar gyfer cyfweld myfyrwyr*. Cytunodd y Pwyllgor â'r cais ac yn eu cyfarfod ym Medi 1969 dywedodd y Llywydd, Mrs Jill Pennington, wrth y Pwyllgor, *fod y Cofrestrydd wedi ei hysbysu y byddai angen Ystafell y Clwb yn ystod y dydd yn y dyfodol fel ystafell aros ar gyfer Meddygon a Deintyddion y Coleg*. Byddai'n parhau i fod ar gael gyda'r nos, ond heb yr ystafell yn ystod y dydd byddai'r boreau coffi yn dod i ben, a byddai'n rhaid i'r is-grwpiau ddod o hyd i fannau cyfarfod eraill. Ym Mai 1971 adroddodd Ysgrifennydd y Clwb *ein bod wedi colli defnydd Penroc y sesiwn hwn*, ac erbyn 1973 roedd yr holl offer a dodrefn a brynwyd ar gyfer yr ystafelloedd wedi cael eu gwerthu.

## VI. Y Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol

Bob mis Mai byddai'r Clwb yn cynnal eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, pan fyddai'r Ysgrifennydd yn traddodi adroddiad ar y cyfarfodydd misol, ac y byddai arweinwyr yr is-grwpiau yn adrodd am eu gweithgareddau. Byddai'r Trysorydd yn cyhoeddi Datganiad Cyfrifon y Clwb, a thrafodid unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad cyn pleidleisio arnynt. Fel arfer byddai'r trafodaethau hyn yn ymwneud â chymhwysedd aelodaeth, ond yn yr 1980au gwnaethpwyd nifer o welliannau yn gysylltiedig â defnydd yr iaith Gymraeg.

Roedd yna thema Gymreig bob amser i gyfarfod misol mis Mawrth, ond er gwaethaf y ffaith fod Amy Parry-Williams, Enid Parry a Mair Jones a llawer o rai eraill yn flaenllaw yn y bywyd

Cymraeg, heblaw am rai carolau adeg y Nadolig a chaneuon adeg dathlu Gŵyl Ddewi, rhoddwyd fawr ddim sylw i'r iaith. Yn CCB 1980, cynigiwyd gwelliant *gan Mrs Morfudd Moelwyn Hughes a'i eilio gan Mrs Nansi Davies y dylai penawdau hysbysiadau'r Clwb fod yn ddwyieithog, yn unol â pholisi swyddogol y Coleg, fel y byddai gan yr hysbysiadau y pennawd, 'College Women's Club / Clwb Merched y Coleg'. Derbyniwyd y gwelliant o 30 pleidlais i 4*. Yn 1986 *awgrymwyd y dylai'r egwyddor o gylchlythyr dwyieithog gael ei hychwanegu at y cyfansoddiad y flwyddyn nesa*, ac yn yr un flwyddyn cynhyrchwyd cerdyn rhaglen y Clwb hefyd yn ddwyieithog, gan ddwyn enw newydd y Clwb yn 1995:

Clwb Merched Prifysgol Cymru
Aberystwyth
University of Wales Women's Club

Byddai aelodau oedd yn gadael Aberystwyth, fel arfer am fod eu gwŷr yn symud i brifysgolion eraill, yn derbyn dymuniadau gorau a diolch am eu cyfraniadau i'r Clwb yn y CCB, a byddai marwolaeth aelodau'n cael ei nodi, gan eu cofio a'u hanrhydeddu â munud o dawelwch. Yn 1971, ymhlith y cardiau gwellhad buan a'r rhai'n llongyfarch ar eni babi a anfonwyd at aelodau, awgrymodd Dr Anita Williams *y dylwn ysgrifennu ar ran y Clwb i longyfarch Dr Gwen Rees ar gael ei derbyn yn Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol*. Gwendolen Rees, a oedd wedi bod yn aelod o Glwb Merched y Coleg o'r dechrau, oedd y ferch gyntaf oedd yn gweithio yng Nghymru i gael ei hethol yn Gymrawd, ac yn yr 1970au roedd hi'n un o wyth o Gymrodorion y Gymdeithas Frenhinol ar staff academaidd Aberystwyth.

Yn y CCB hefyd yr etholid y swyddogion a'r aelodau Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Rai blynyddoedd byddai cystadleuaeth gref am y swyddi, a llawer o ganfasio. Yn ddiweddarach, fodd bynnag, byddai aelodau'n gyndyn i'w henwau gael eu cynnig, a byddai rhai unigolion yn gwasanaethu am fwy nag un tymor.

Gwesty'r Belle Vue a Neuadd y Cambrian oedd lleoliadau'r ddau CCB cyntaf, ond yn 1959 symudwyd i Westy'r Marine, lle y dilynid y cyfarfod gan ginio. Cyfarfuent hefyd yn ffreutur Undeb y Myfyrwyr a Thŷ'r Staff, lle, yn 1968, cyn y cyfarfod, *cafwyd bwffe ysgafn o roliau selsig, brechdanau, teisennod a choffi am 3/6 y pen. Cynigiodd Mr Mathewman ostwng y pris i 3/- petaent yn defnyddio cwpanau taflu. Roedd yn well gan aelodau'r Pwyllgor ddefnyddio cwpanau tsieina a chytunon nhw i weithredu fel gweinyddesau er mwyn cadw'r pris yn 3/6*. Cyfarfu'r Clwb yn y pum lleoliad hyn yn eu tro tan 1973 pan benderfynwyd ar Dŷ'r Staff, ac arhoson nhw yno, gyda dim ond un toriad, tan 1991 pan fu'n rhaid iddynt symud i Frynamlwg, *gan nad oes gennym ddefnydd o Dŷ'r Staff bellach am* fod yr adeilad wedi cau. Brynamlwg a Phenbryn fyddai'r lleoliad wedyn tan eu cyfarfod olaf yn 2013 a gynhaliwyd yn Ystafell Seddon.

## VII. Y Gwibdeithiau Blynyddol

Cynhelid cyfarfod olaf y flwyddyn ym Mai neu Fehefin, ond nid yn un o ystafelloedd y Coleg, oherwydd dyma fyddai'r Wibdaith Flynyddol. Ymwelodd yr aelodau â Melinau Leri, Tal-y-bont, ym mis Chwefror 1955, a Phlas Gregynog ym Mehefin, ac yn 1956 *trefnwyd ac arweiniwyd* y gyntaf o gyfres o deithiau gan yr Athro T. Jones Pierce o'r Adran Hanes. Drwy ei gysylltiadau roedd gan T. Jones Pierce fynediad i nifer o dai hanesyddol drwy ganolbarth a gogledd Cymru, ac yn 1956 cychwynnodd gwibdaith y Clwb gydag ymweliad â Hengwrt lle'u croesawyd gan Mrs Vaughan. Oddi yno aethant i Abaty Cymer, wedyn te yn Neuadd Caerynwch, Cricieth, cyn mynd i Beniarth lle *y cawsant eu tywys o gwmpas gan Mrs Williams Wynn*. Y flwyddyn ganlynol aeth T. Jones Pierce â deugain aelod ar daith fws i ogledd Cymru, gan ymweld â Phortmeirion, Ystumllyn, lle, *trwy garedigrwydd Mr a Mrs Shaw, cawsant edrych o gwmpas y tŷ hanesyddol a chael te* cyn dilyn llwybr David Lloyd George i Lanystumdwy ac i'w fedd ar lan afon Dwyfor. Yna aethant i Frynawelon, cartref y Fonesig Megan Lloyd George, lle gwelsant rai o'r ystafelloedd lawr grisiau a'r gerddi. Yn 1958 buont yn ymweld ag amryw fannau a thai

hanesyddol yn sir Frycheiniog, gan gynnwys Cilmeri, Capel Maesyronnen, Hen Neuadd Gwernyfed ac Eglwys Llanfilo. Ond daeth y teithiau hyn i ben yn 1960 gan yr adroddwyd yn y Llyfr Cofnodion fod *cydymdeimlad yr aelodau wedi ei fynegi i Mrs Jones Pierce ar salwch yr Athro Jones Pierce*.

Dros y blynyddoedd ceisiodd y Clwb amrywio'u teithiau rhwng mannau lleol a chenedlaethol: Hufenfa'r Bwrdd Marchnata Llaeth yn Felin-fach (1956); Theatr Pypedau Harlequin, Llandeilloyn-Rhos (1959); Nanteos, lle gwelson nhw Gwpan Nanteos (1960); Castell Powys (1962); Melin Wlân Llandysul (1963); Llyn Fyrnwy (1964); Llyfrgell Genedlaethol Cymru (1970); Crochendy Castell Fflemish Tregaron (1971); taith trên ar hyd Arfordir y Cambrian i Harlech (1973); Henffordd ar gyfer casglu ffrwythau (1975); Cloddfa Plwm-arian Llywernog (1977); Laura Ashley yng Ngharno (1979); Ysgol Outward Bound, Aberdyfi (1981); Ffatri Borslen Royal Worcester (1983); Llanerchaeron (1994); Stablau Derwen, Llanarth (1997); Ffatri Crisial Brenhinol Cymru (1999); Gardd Llanllŷr (2007).

Yn 1964 dechreusant gyfres o deithiau cerdded gyda'r nos, pan fyddent yn cyfarfod ym Mhonterwyd i gerdded ar hyd afon Rheidol (1964); Bedd Taliesin (1965); Cwm Einion, Ffwrnais (1966); Trawsgoed i weld y llyfrgell a'r gerddi (1967).

Ddydd Iau, 8 Mehefin 1972, ar yr union ddyddiad ag y buon nhw yno 17 mlynedd ynghynt, teithiodd 57 o aelodau mewn dau fws i Blas Gregynog a roddwyd i Brifysgol Cymru gan Margaret Davies cyn ei marwolaeth yn 1963. Croesawyd y Clwb gan y warden, Glyn Tegai Hughes, a Mrs Dora Herbert Jones a oedd yn 82 mlwydd oed. Yn dilyn taith o gwmpas y plas, a the, cyrhaeddodd 45 aelod Aberystwyth am 11.45, ond torrodd y bws mini oedd yn cludo'r 12 arall i lawr yn Llandinam. *Gwnaethom ein gorau i wthio'r bws mini, ond yn ofer! Am hanner nos cyrhaeddodd bws arall a chyrhaeddon ni adre am 1.35am, yn flinedig a llesg – ond bu'n noson i'w chofio am fwy nag un rheswm!*

Ond lle bynnag yr aent ar eu Gwibdaith Flynyddol, byddent bob amser yn diweddu'r dydd gyda phryd o fwyd, ac ymhlith y rhestr hir o westai a bwytai y buont yn gwledda ynddynt ar hyd y blynyddoedd oedd: Y Café Royal, Aberhonddu; Gwesty Glen Usk; Caffi Cletwr; Gwesty'r Talbot, Tregaron; l'Hirondelle, Aberaeron; Gwesty Dyffryn Castell; Gwesty'r Llew Gwyn, Tal-y-bont; Gwesty'r Buckley Arms; Gwesty Castell Malgwyn; Gwesty Plas Penhelig; Neuadd Maesmawr; Gwesty Cwm Elan, a Gwesty Tŷ Gwledig y Falcondale.

## VIII. Aelodaeth a Recriwtio

Y prif reswm dros sefydlu Clwb Merched y Coleg oedd cael rhywle lle y gallai gwragedd aelodau newydd o staff y Coleg gyfarfod a dod i adnabod gwragedd eraill a oedd eisoes wedi ymgartrefu yn y dre. Yn yr 1950au, pan oedd cymuned y Coleg yn dal yn fach, a chysylltiadau gan y Clwb â llawer o adrannau, roedd hi'n gymharol hawdd gwybod pan fyddai newydd-ddyfodiaid yn y Coleg, a gallai aelodau'r Pwyllgor eu gwahodd i gyfarfodydd drwy gyfrwng yr adrannau academaidd.

Yng nghyfarfod mis Hydref sesiwn 1958-59 croesawodd Llywydd y Clwb, Dr Gwendolen Rees, 82 aelod a chyhoeddi hefyd *fod yna bymtheg aelod newydd o'r staff a oedd yn gymwys i fod yn aelodau o'r Clwb y sesiwn hwn. Dywedodd Dr Rees ein bod yn falch o'u croesawu nhw fel ein gwesteion ar yr achlysur hwn, gan obeithio y byddwn yn gallu eu cyfrif yn rhan o'n haelodaeth yn ddiweddarach*. Ni chofnodwyd faint a ymunodd, ond presenoldeb cyfarfod mis Tachwedd oedd *cant ac un ar ddeg o bobl*.

Ni chofnodwyd ffigurau aelodaeth Clwb Merched y Coleg yn adroddiadau blynyddol yr Ysgrifennydd yn ystod chwe blynedd cyntaf eu bodolaeth, ond o ddechrau sesiwn 1958-59 cofnodwyd y presenoldeb yn y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd misol, a rhwng hynny a CCB 1962-63, pan oedd nifer yr aelodau'n cael eu cynnwys yn adroddiad yr Ysgrifennydd, amrywiai'r

presenoldeb o 40 i 130, gyda 6 chyfarfod yn denu dros 100 o aelodau. Ond ar yr un pryd, pan fedrai nifer yr aelodau'n mynychu'r cyfarfodydd hyn fod yn llai na hanner nifer aelodau'r Clwb, mae'n bosib dweud bod yr aelodaeth yn yr 1950au yn weddol uchel. Ond gan fod aelodau'n gallu dod â gwesteion i'r cyfarfodydd – hynny yw, merched nad oedd yn gymwys i fod yn aelodau o Glwb Merched y Coleg o'u rhan eu hunain – ni ellir cymryd yn ganiataol bod pawb a fynychai'r cyfarfodydd misol yn aelodau.

Dechreuodd adroddiad yr Ysgrifennydd am sesiwn 1962-63 â'r geiriau canlynol: *Gwelodd y flwyddyn 1962-63 barhad o'r cynnydd, a'r aelodaeth yn cyrraedd 170. Roedd yna 25 newydd-ddyfodiad i'r Coleg, a 15 o'r rhain yn ymuno â Chlwb y Merched. Aeth y pwyllgor â'r newydd-ddyfodiaid i gael coffi yng Ngwesty'r Marine ddydd Mercher, 10 Hydref 1962*, ddau ddiwrnod cyn cyfarfod cyntaf y sesiwn.

A dyma'r patrwm a fabwysiadwyd gan y Clwb; byddent yn gwahodd y gwragedd newydd i gael coffi yn y Marine neu'r Belle Vue lle byddai'r Pwyllgor *yn amlinellu bwriadau'r Clwb, ac arweinwyr yr amrywiol grwpiau'n siarad am eu gweithgareddau gan wahodd aelodau newydd i ymuno*. Yn y cyfarfodydd cyntaf hyn hefyd, rhoddid i'r newydd-ddyfodiaid *ddarlun cynhwysfawr o Aberystwyth*.

Yn 1970 daeth y bore coffi'n noson goffi yn Nhŷ'r Staff *i weld a fyddai'n fwy cyfleus i wragedd oedd yn gweithio, a chanddynt blant. Fodd bynnag, gan fod yna tuag ugain aelod newydd, nid yw'n ymddangos ei fod wedi gwneud llawer o wahaniaeth*. Serch hynny dyfalbarhau a wnaethon nhw, ac yn 1973 daeth y noson goffi'n barti sieri yn Neuadd y Cambrian *i groesawu aelodau newydd i ymuno â'r Clwb Merched*, ond dim ond 14 o aelodau newydd a ddenwyd. Yn 1974, yn hytrach na chynnal cyfarfod y newydd-ddyfodiaid ychydig ddiwrnodau cyn y cyfarfod misol cyntaf, penderfynwyd ei gynnal cyn y prif gyfarfod. Ond unwaith eto, dim ond 12 aelod newydd a ddenwyd.

Yn 1976 dychwelsant i'r boreau coffi, ond er gwaethaf twf parhaus y Coleg a newid cyson mewn staff, parhaodd nifer yr aelodau newydd yn isel. Mewn cyfarfod Pwyllgor ym mis Medi 1981 *penderfynwyd rhoi'r gorau i'r bore coffi ar gyfer aelodau newydd a oedd yn amlwg yn eu habsenoldeb*.

Roedd hyn i gyd yn waith ychwanegol i Bwyllgor roedd ei brif orchwylion yn cynnwys *penderfynu ar ddiwrnodau a dyddiadau cyfarfodydd y Clwb; trafod a threfnu'r rhaglen; cysylltu â siaradwyr; llogi ystafelloedd; argraffu rhaglen y Clwb; hysbysebu; casglu tanysgrifiadau; talu siaradwyr; trefnu offer, ac weithiau wasanaeth cyfieithu*.

Ond roedd yr angen i ddenu aelodau newydd bob amser yn bresennol. Parhaent i gyhoeddi cyfarfodydd y Clwb ar hysbysfyrddau'r adrannau ac yn *Aber News & Views,* a hefyd anfon gwahoddiadau i'r rhai oedd yn gymwys i fod yn aelodau. Rhoddasant gynnig ar noson sieri eto yn 1982, ond er gwaethaf anfon allan 520 o lythyrau, dim ond un aelod newydd o'r staff a fynychodd yr achlysur.

Yn nhermau aelodaeth, cyrhaeddodd Clwb Merched y Coleg benllanw rhwng y 60au cynnar a chanol y 70au. Yn ystod y cyfnod hwnnw roedd y niferoedd yn agos i 200, ac ar bum achlysur cododd uwchben hynny, gyda'r nifer uchaf o 220 yn cael ei gofnodi yn 1967, a phatrwm o ddirywiad fu o hynny ymlaen. Ond hyd yn oed ar ei orau, llai na hanner yr aelodau fyddai'n mynychu cyfarfodydd misol y Clwb, am fod gan lawer ohonynt fwy o ddiddordeb yng ngweithgareddau'r is-grwpiau, ac ni fyddai pawb hyd yn oed yn talu eu tanysgrifiad i Glwb Merched y Coleg. Daeth y broblem hon i'r amlwg yn gynnar yn hanes y Clwb.

Ym mis Ionawr 1963 roedd y Pwyllgor wedi penderfynu *y dylai arweinwyr yr is-grwpiau dynnu sylw at y ffaith na fyddai unrhyw un yn gallu ymuno â'u grwpiau pe na baent yn aelodau o Glwb Merched y Coleg*. Ond mae'n amlwg na wellodd y sefyllfa, oherwydd yng nghyfarfod Pwyllgor mis Ebrill awgrymodd Beryl Johnston y dylai *penaethiaid yr is-grwpiau anfon rhestr o'u*

*haelodau at y Trysorydd er mwyn iddynt gael eu gwirio*. Ond er gwaethaf hyn i gyd ni newidiodd y sefyllfa, ac yn 1979, pan ofynnodd y Grŵp Drama i Glwb Merched y Coleg am gymorth ariannol, fe'u hatgoffwyd y dylai *pob aelod o'r is-grwpiau fod yn aelodau cyflawn o Glwb Merched y Coleg* am fod hyn yn effeithio ar yr arian a gâi'r Clwb drwy danysgrifiadau.

Dros y blynyddoedd, un ffordd o gynyddu aelodaeth y Clwb oedd trwy bwrw'r rhwyd yn ehangach a gwneud eraill o'r tu allan i'r Coleg yn gymwys, ac adlewyrchir hyn yn y newidiadau a wnaed i Gyfansoddiad y Clwb. Pan ddechreuodd y Clwb roedd aelodaeth *yn agored i aelodau staff benywaidd...gwragedd a gweddwon aelodau staff, cyn-aelodau staff benywaidd, a gwragedd a gweddwon cyn-aelodau staff. Diffiniad 'staff' yw aelodau'r staff dysgu, ac aelodau'r staff gweinyddol sydd yn gymwys ar gyfer aelodaeth Ystafell Gyffredin Hŷn Coleg Prifysgol Cymru* a gynigai gyfleoedd i academyddion gymdeithasu. O ganlyniad i fwy a mwy o adrannau'n cael eu hadleoli i Gampws Penglais yn ystod yr 1970au a'r 80au, caeodd yr Ystafell Gyffredin Hŷn yn yr Hen Goleg a daeth bod yn gymwys ar gyfer Clwb Merched y Coleg i ddibynnu ar aelodaeth o Dŷ'r Staff yn 9 Maes Lowri.

Yn CCB 1984, hysbysodd y Llywydd, Christine Price, ei bod yn bwriadu cynnig gwelliant yn y CCB nesaf ynglŷn ag aelodaeth, gan ei bod yn dymuno'i hestyn i *wragedd holl weithwyr y Coleg, boed yn staff academaidd, yn weinyddwyr, neu'n lanhawyr*. Yn CCB 1985, *yn dilyn trafodaeth frwd*, y teimlad oedd bod angen mwy o wybodaeth er mwyn canfod *faint o bobl y byddai hyn yn debygol o'i olygu, i ystyried sut i'w cylchlythyru, ac i gyflwyno'r canlyniadau i'r Clwb ar gyfer trafodaeth*. I'r perwyl hwn sefydlwyd is-bwyllgor bach, sef Peggy Jones, Christine Price, Judith Smart a Mercedes Mills.

Yn dilyn hyn, yn CCB 1986 gwnaethpwyd pum gwelliant yn ymwneud ag aelodaeth i Gyfansoddiad y Clwb, tri ohonynt yn newid diffiniad y gair 'staff' a fyddai'n golygu o hynny ymlaen, *aelodau o'r staff dysgu, staff clerigol, staff technegol, gweithwyr â llaw, cynorthwywyr ymchwil, a'r staff gweinyddol sy'n gymwys ar gyfer aelodaeth Tŷ Staff CPC*. Ond hyd yn oed wedyn, pan nodwyd mai'r *aelodaeth bosib oedd c.2,000*, arhosodd yr aelodaeth wirioneddol yn union yr un peth â'r flwyddyn cynt, sef 127.

Erbyn canol yr 1980au gallai aelodau ddod nid yn unig o'r Coleg, ond hefyd o Gomisiwn Henebion Cymru, yr Arolwg Daearegol Prydeinig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Coleg Amaethyddol Cymru, Coleg Llyfrgellwyr Cymru, a'r Coleg Diwinyddol Unedig. Ac yn 1992 ychwanegwyd Coleg Ceredigion, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a'r Comisiwn Coedwigaeth at y Cyfansoddiad. Yn 1996 unwyd Clwb Merched y Staff â Chlwb Merched Prifysgol Cymru Aberystwyth, ond er gwaethaf hyn, parhaodd y niferoedd i ddisgyn. Yn 2000 roedd yna lai na 100 o aelodau, ac yn 2013, blwyddyn olaf y Clwb, roedd yna 48 aelod, ei nifer isaf erioed.

## IX. Yr Is-Grwpiau

Clwb Merched y Coleg, a'i chwe chyfarfod misol yn ystod y flwyddyn academaidd, oedd y prif fodd o hybu cyfathrach gymdeithasol ymhlith yr aelodau, ond nid dyna'r unig un.

O fewn dau fis i gyfarfod cyntaf y Clwb, roedd Grŵp Bridge a Chanasta wedi'i sefydlu, pan, fel yr adroddwyd yng nghofnodion CCB 1997 y Clwb, *soniodd Mavis Rees fod y grŵp wedi'i ffurfio yn 1955 pan gyflwynodd Beryl Johnston orchuddion a chardiau*. Ym mis Hydref y flwyddyn ganlynol *cyfeiriwyd at fodolaeth Dosbarth Gwnïo, yn ogystal â Dosbarth Dawnsio Gwerin a oedd newydd ei sefydlu*. Dyna'r unig gyfeiriad at y Dosbarth Dawnsio Gwerin yng nghofnodion y Clwb, ond parhaodd y Dosbarth Gwnïo ychydig yn hwy, tan Ebrill 1958, *a modelodd rhai aelodau ddillad a wnaethpwyd ganddynt* yn CCB 1957.

Yn 1957 hefyd y crëwyd y Grŵp Drama a barhaodd tan yr 1980au. Roedd hwn yn un o'r pum prif is-grŵp, a'r lleill oedd y Grŵp Bridge (1955-2009), y Grŵp Trafod (1959-2014), y Grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol (1959-2002), a'r Grŵp Blodau (1973-2010).

Yn ogystal â'r grwpiau hyn, daeth aelodau at ei gilydd i ffurfio Côr (1962-74) a oedd yn rhan gyson o adloniant Nadoligaidd y Clwb. Eu harweinydd a'u cyfeilydd cyntaf oedd Joy Owen, a ddilynwyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn gan Sue Gerallt Jones, ac yna yn fwyaf nodedig gan Charles Clements, yr oedd Rhiannon Mansel Davies wedi'i wahodd i ddysgu ac arwain y Côr. Mae'r aelodau Margaret Dyfri Jones a Mair Hughes yn cofio'u bod yn ymarfer ym Mhantycelyn, ac yn ogystal â chyfrannu at adloniant Nadolig a Gŵyl Ddewi y Clwb, byddent yn diddanu trigolion cartrefi Avondale, Bodlondeb a Deva, a hefyd adeg aduniadau Pasg Cymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr yn ystod yr 1960au a'r 70au.

Cychwynnwyd Grŵp Cadw'n Heini yn 1966, cyn iddo orffen ac ailddechrau a pharhau'n ysbeidiol tan 1974. Cynhaliwyd dosbarthiadau Ffrangeg a Rwsieg yn ystod yr 1970au, a rhoddai Helen Waring yr arian a gâi gan fyfyrwyr y Dosbarth Rwsieg i'r Grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn yr 1970au hefyd ffurfiwyd Grŵp Mam a'i Phlentyn (1973-76), Grŵp Gwyddbwyll (1974-79), Grŵp Cerdded neu Grwydro, a hefyd Grŵp Marchogaeth. Cyfeiriwyd at y ddau olaf unwaith yn unig, yn 1974 ac 1976, ac ar wahân i gyfeiriadau byr yng nghofnodion y CCB, ni oroesodd adroddiadau na chofnodion ar gyfer yr is-grwpiau byrhoedlog hyn.

## Y Clwb Bridge

Erbyn 1957 adwaenid y Grŵp Bridge a Chanasta a gyfarfu am y tro cyntaf yng Ngwesty'r Belle Vue ym mis Mawrth 1955 yn syml fel y Clwb Bridge, ac roedd yn cyfarfod yn yr Ystafell Gyffredin Hŷn yn yr Hen Goleg bob yn ail ddydd Llun. Er 1956 roedd yr arweinwyr, Olive Morton, Margaret Evans, Enid Nosworthy, Dorothy Saunders, Beryl Johnston, Gladys Griffiths a Gwyneth Trott, wedi cyflwyno'u hadroddiadau blynyddol yn CCB Clwb Merched y Coleg, ond yn anffodus nid yw'r un o'r adroddiadau hynny, na Llyfr Cofnodion y Clwb Bridge, y Llyfr Cadw Sgôr, nac unrhyw archifau eraill ar gyfer y cyfnod 1955-70/71, wedi goroesi.

Yn ystod y pymtheng mlynedd ers iddo gael ei greu, roedd rheolau'r Clwb Bridge wedi hen sefydlu, ond eto, ar adegau, roedd dal angen eu hailbwysleisio a'u gwirio, fel y dengys un o gofnodion cyfarfod Pwyllgor 16 Tachwedd 1970. *Cytunwyd y dylid gofyn i'r Clwb ailgadarnhau (os dymunir) y rheol y dylai partneriaid newydd gael eu dewis bob blwyddyn ar gyfer y flwyddyn. Ymddengys nad oedd rhai aelodau'n cydymffurfio*.

Rhywbeth arall oedd wedi hen sefydlu erbyn 1970 oedd traddodiad y Clwb yn y CCB o gyflwyno llwyau arian i'r prif enillwyr â'r nifer fwyaf o bwyntiau wedi'u crynhoi dros y flwyddyn. Mae adroddiad y Trysorydd yng nghyfarfod 16 Tachwedd yn nodi bod ganddynt *weddill o £26.11.5 ar ôl talu am chwe llwy arian. Mae dwy lwy arall wedi'u harchebu, a chytunwyd y gellir ystyried pwrcasiadau pellach yn hwyrach gan fod 22 o lwyau mewn llaw*. I wneud pethau'n decach i'r holl aelodau, awgrymodd Beryl Johnston yng nghyfarfod 18 Mai 1971 *na ddylai'r rhai oedd i dderbyn llwyau yn y CCB fod yn gymwys ar gyfer y gwobrau fyddai'n cael eu cyflwyno'r noson honno*. Ac yn y CCB, mae cofnod 8 yn nodi'n syml: *Cyflwynwyd y llwyau*.

Ond roedd yna wahaniaethau rhwng y mathau o lwyau a gâi eu cyflwyno, fel y gwelir yn rhestr enillwyr sesiwn 1973-74:

| | | |
|---|---|---|
| *1. Bunty Richards* | *277* | *Llwy'r Frenhines Anne* |
| *2. Kay Kidgell* | *276* | *Llwy'r Frenhines Anne* |
| *3. Dorothy Saunders* | *268* | *Llwy'r Frenhines Anne* |
| *4. Barbara James* | *264* | *Llwy De* |
| *5. Pat Corlett* | *257* | *Llwy De* |
| *= Frances John* | *257* | *Llwy De* |
| *7. Enid Nosworthy* | *252* | *Llwy Fach* |
| *8. Margaret Dummer* | *242* | *Llwy Fach* |

Ceir cyfeiriadau cyson yng nghyfarfodydd y Clwb Bridge at y llwyau arian, eu nifer, eu pris, a'r nifer a ddylai gael eu cyflwyno. Yn 1979 prynwyd 4 llwy arian am £6 yr un gan Susan Whitehead, Llangurig, ond gan fod *pris arian wedi codi'n rhyfeddol o gyflym, penderfynwyd*

*gohirio prynu rhagor eleni*. Dros y blynyddoedd cynigiodd rhai aelodau y dylid gostwng nifer y llwyau a gâi eu cyflwyno bob blwyddyn o 8 i 6, neu hyd yn oed 4, ond penderfynodd yr aelodau bob tro i gadw at 8, ond yng ngoleuni'r ffaith fod pris arian yn aros yn uchel, penderfynwyd yn 1980 *na fyddai'r Clwb yn gallu fforddio cyflwyno wyth llwy arian yn flynyddol*. Roedd ganddynt 7 llwy mewn llaw, a chynigiodd Mavis Rees, a'i heilio gan Edeila Williams, *y dylai'r llwyau gael eu cyflwyno i'r pedair prif chwaraewr yn unig, a'r pedair nesaf i dderbyn tocynnau am £5: £4: £3: £2*. Derbyniwyd y cynnig hwn gan fwyafrif mawr.

Erbyn 1986 *roedd y llwyau arian wedi mynd mor ddrud fel mai dim ond un llwy a brynwyd, yn hytrach na thair, felly roedd pedair llwy mewn llaw ar gyfer 1986*. Ond er gwaethaf pris arian, a'r cynnig yn 1988 i brynu llwyau arian platiog, llwyddodd y Clwb, drwy brynu'n ail law, neu drwy haelioni aelod a fynnai aros yn ddienw, i barhau i gyflwyno llwyau arian fel gwobrau tan 1995 pan nodwyd, gan ei bod bellach *yn amhosib prynu llwy arian am lai na £5, penderfynwyd cyflwyno'r 5 llwy sydd gennym ac yna rhoi tocynnau £5 am y 4 sgôr uchaf*. Ac i bob pwrpas dyna ddiwedd ar yr arfer o gyflwyno llwyau arian i'r sgorwyr pwyntiau uchaf.

Roedd gostyngiad yn aelodaeth y Clwb Bridge dros y blynyddoedd hefyd yn fater o ofid. Yn 1982 credai Veronica Guy y gallai'r Clwb *ddenu rhai aelodau iau drwy apêl llai ffurfiol, a chynigiodd y dylid hysbysebu noson agoriadol y sesiwn canlynol fel noson gymdeithasol gyda 'bridge'*. Ac yn 1984 cytunwyd y dylid trefnu dosbarthiadau *pan fyddai'r rhai sydd â diddordeb yn gallu cyfarfod i drafod a dysgu mwy am y gêm – cynigion, confensiynau, rheolau, ayb*. Arhosodd yr aelodaeth yn gyson dros y degawd nesaf, a gallai Pamela Woodhouse adrodd yn 2002 *ein bod ar gyfartaledd wedi cael pum bwrdd llawn bob sesiwn*.

Ond erbyn 2005 roedd y Clwb yn colli niferoedd yn araf a chyson, a olygai mai dim ond 3½ o fyrddau oedd ganddynt ar adegau, ac *ar ôl trafodaeth eang penderfynwyd y byddwn yn ymlacio'r rheolau ynglŷn â gwesteion ac yn caniatáu 2-3 gwestai bob wythnos, ar yr amod na fyddai unrhyw aelod yn cael ei adael heb bartner*. *Derbyniwyd hyn yn unfrydol*. Ond ni wellodd pethau. Yn 2008 nododd adroddiad Margaret James, *Nifer yr aelodau bellach yw 18, a'r nifer o fyrddau a gafwyd ar gyfartaledd oedd 3½. Cafwyd awgrym y dylid cau'r clwb, ond penderfynwyd parhau mor hir ag sy'n bosib.*

Effeithiodd y gostyngiad mewn aelodaeth ar swyddogion y Clwb; gan fod llai o aelodau, byddai'r dyletswyddau naill ai'n cael eu rhannu rhwng mwy nag un person, neu byddai swyddog yn aros mewn swydd yn hwy na'r flwyddyn arferol, fel yn achos y Trysorydd, Joanne Maltman, a arhosodd yn y swydd am ddeuddeg mlynedd yn ddi-dor o 1998 i 2009. Ar 3 Mehefin 2009 ysgrifennodd Margaret James at Rosemary Law, Ysgrifennydd Clwb Merched Prifysgol Aberystwyth: *Gyda chryn ofid rwyf yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod Grŵp Bridge Clwb Merched y Coleg wedi gorfod cau ers neithiwr. Y broblem yw ein bod yn anorfod yn colli aelodau a does neb yn dod yn eu lle. O ganlyniad mae'r nifer wedi disgyn mor isel fel na allwn warantu cael 3 bwrdd, sef yr isafswm angenrheidiol.*

*Mae'n drist bod y clwb hwn, sy wedi rhoi cymaint o bleser am gynifer o flynyddoedd, wedi dod i ben, ond yn anffodus doedd dim dewis*.

## Y Grŵp Drama

Cytunwyd yn ail CCB y Clwb yn 1957 y byddent yn sefydlu Grŵp Drama, ac yn Ionawr 1958 *perfformiwyd dwy ddrama gan y Gymdeithas Ddrama newydd yn Neuadd yr Arholiadau, 'The Vixen and the Grapes' a 'The Brontë Sisters'*. Ymhen dau fis perfformiwyd dwy ddrama arall, *The Shadow Passes* ac *A Husband for Breakfast*, yn Neuadd yr Arholiadau i gynulleidfa o 150 o aelodau a ffrindiau.

Profodd y cynyrchiadau hyn i fod mor boblogaidd fel yn 1959 cyflwynodd y Grŵp Drama ddrama tair act, *Ladies in Retirement* dros ddwy noson, 21 a 22 Ionawr. Dyma'r tro cyntaf iddynt roi cynnig ar ddrama hir, a'r tro cyntaf hefyd i'r perfformiadau fod ar agor i'r cyhoedd. Dros y

ddwy noson cafwyd cynulleidfa o 301.

Y patrwm a ddilynwyd gan y Grŵp Drama yn ystod y blynyddoedd nesaf oedd perfformio drama un act a drama hir am yn ail dros ddwy noson. Ymhlith y dramâu hyn oedd *The Falcon*, Tennyson; *The Bear*, Chekhov; *The Rose and Crown*, J.B. Priestley, a *Corinth House*, Pamela Johnson.

Adlewyrchir safon uchel eu perfformiadau gan y ffaith i'r grŵp ennill Gŵyl Ddrama'r Sir yn 1962, ac arddangoswyd y cwpan gyda balchder yn y CCB y flwyddyn honno.

Ymhlith y dramâu a berfformiwyd dros ddwy noson oedd *Breath of Spring* (1962), *The Constant Wife* gan Somerset Maugham (1964), a *Ring Around the Moon* gan Jean Anouilh (1968). Yn 1969 daeth y ddwy noson o ddramâu yn Dair Noson o Ddrama, gyda *The Beaux Stratagem* (1969), *Pride and Prejudice* (1970) a *Hobson's Choice* (1972), y cyfan yn cael eu perfformio yn Neuadd yr Arholiadau, yr Hen Goleg.

Yn 1972 roedd y Grŵp Drama yn un o'r cwmnïau cyntaf i berfformio ar lwyfan Theatr y Werin, Penglais, a oedd newydd gael ei gorffen yr hydref hwnnw. Yr achlysur y tro hwn oedd cyfarfod Nadolig y Grŵp i aelodau a gwesteion, ac ynghyd â Chôr y Clwb cyflwynwyd pasiant, 'Role of Women Students Through the Years', a gasglwyd gan Sonia Dobson.

Yn 1975 dychwelodd y grŵp i Theatr y Werin am *Bwffe a Noson Gyntaf* ar gyfer cynhyrchiad *Dinner with the Family* pan *gynhaliwyd bwffe wedyn yng nghyntedd y Neuadd Fawr drwy drefniant gyda Roger Tomlinson, rheolwr Canolfan y Celfyddydau*. Dilynwyd eu perfformiad o *The Hollow*, Agatha Christie, yn 1976 hefyd gan bwffe. Pris tocyn ar gyfer y ddrama a'r bwffe oedd £2.30.

Daeth Elizabeth a Telfryn Pritchard i Aberystwyth yn 1966, ac erbyn dechrau sesiwn 1966-67 roedd hi wedi ymuno â Chlwb Merched y Coleg. Mae ei hatgofion o'i chysylltiad hir â'r Grŵp Drama yn peintio darlun byw o'u gweithgareddau:

*Yn fuan ar ôl ymaelodi â'r prif Glwb, ymunais â'r Grŵp Drama, a mwynheais yn fawr iawn. Cynhaliwyd y cynyrchiadau cyntaf a wnaethom ar ôl i fi ymuno, yn Neuadd yr Arholiadau, a rhai diweddarach yn Theatr y Werin. Yr un cyntaf dwi'n ei gofio oedd 'The Importance of Being Earnest'* [1967]. *Cefais y dasg o ysgrifennu'r rhaglen ar gyfer hwn – dim ond i gael fy ngheryddu'n ysgafn gan Arnold Duff a oedd yn chwarae Canon Chasuble, am sillafu Canon â dwy 'n'. Roeddwn i hefyd yng ngofal yr arian, a oedd braidd yn fyrbwyll ar ran y grŵp gan na allwn i byth mantoli cyfrifon yr Arian Cinio'n gywir ar ddiwedd yr wythnos pan oeddwn yn dysgu.*

*Y cynhyrchiad mwyaf pleserus a wnaethom oedd 'Pride and Prejudice'* [1970]. *Cynhyrchwyd y rhan fwyaf o'r dramâu eraill gan Alison Davies, ond Del Williams wnaeth hon. Byddwn fel arfer yn cael fy newis i chwarae morwyn neu was bach o ryw fath, ond yn hon fe'm dyrchafwyd i uchelderau'r bonedd fel Lady Lucas. Deian Hopkin oedd y Mr Wickham ddieflig, Peter Bement oedd Mr Darcy, a Rhiannon Steeds oedd Elizabeth Bennet. Ieuan Davies a Nesta Dodson oedd Mr a Mrs Bennet. Alison Davies, a oedd rai blynyddoedd yn hŷn na fi, oedd yn chwarae rhan fy merch Charlotte.*

*Dramâu eraill yn Neuadd yr Arholiadau oedd 'Ring Around the Moon'* [1968] *a 'Hotel Paradiso'* [1974]. *Cynyrchiadau diweddarach yn Theatr y Werin oedd 'Absurd Person Singular'* [1978], *'Dinner With the Family'* [1975], *'Was he Anyone?', 'The Rape of the Belt'* [1979] *a 'Breath of Spring'* [1978]. *Yn y dyddiau cynnar byddai'r Grŵp Drama yn aml yn gwneud eitem yng nghyfarfod Nadolig y Clwb. Gwnaethom 'Murder in the Red Barn' un flwyddyn* [1970], *a blwyddyn arall, ddarlleniadau amrywiol o ddyddiadur y Frenhines Fictoria. Cawsom hefyd sioeau ffasiwn o rai o'r gwisgoedd roedden ni wedi'u casglu. Rhoddwyd pâr o ffrogiau crinolin hardd i'r grŵp gan rywun, rhai fu'n perthyn i bâr o efeilliaid (tenau iawn). Methon ni eu defnyddio yn unrhyw un o'r cynyrchiadau gan nad oedd neb yn ddigon tenau i'w gwisgo. Dwi'n*

*credu eu bod wedi mynd i Sain Ffagan yn y diwedd.*

*Cedwid y gwisgoedd yn nhŵr yr Hen Goleg oedd yn llawn colomennod. Cawsom roddion o wisgoedd o amryw ffynonellau. Roedd gan Sonia Dobson berthynas fu'n swyddog o ryw fath yn y llywodraeth, a chanddo siaced wedi'i haddurno â phlethwaith a les aur, a chawson ni honno. Roedd gennym hefyd atodion amrywiol, megis gwregysau, bagiau, ayb, yn perthyn i wahanol gyfnodau. Benthyciwyd y rhan fwyaf o'r dodrefn ar gyfer cynyrchiadau gan Margaret Evans, 'Aberystwyth Ddoe', ond golygai 'The Rape of the Belt' ddrilio â gwaywffyn hir a thrwm a fenthyciwyd gan yr Adran Ymarfer Corff.* David Tinker o'r Adran Gelf fyddai'n cynllunio'r setiau.

*Roedd yn grŵp ardderchog i fod yn aelod ohono oherwydd cawson ni lawer o hwyl. Byddai'r rhai oedd yn gyfrifol am y props yn aml yn chwarae triciau ar yr actorion. Dwi'n credu mai yn 'Absurd Person Singular' roedd yr actorion yn bwyta salad ar y llwyfan mewn un olygfa, a rhoddwyd broga plastig gwyrdd yn y salad hwnnw. Yn 'Was He Anyone' (a oedd yn ddrama abswrd), dangosid llun i Elizabeth Andrews â'r llinell 'This is his married sister from Dumfries', a byddai'r llun yn wahanol bob nos. Un tro llun o Elizabeth ydoedd, a thro arall gorila – dwi ddim yn gwybod sut y llwyddodd Elizabeth i beidio chwerthin.*

Ymddengys mai perfformiad tair noson *The Rape of the Belt* yn Theatr y Werin rhwng 17 ac 19 Mai 1979 oedd y ddrama olaf i'r Grŵp Drama ei chynhyrchu. Mae cofnodion CCB y Clwb yn nodi derbyn adroddiadau gan y Grŵp tan 1981, ond does dim cyfeiriad at unrhyw gynyrchiadau eraill.

## Y Grŵp Trafod

Trefnwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Trafod ar gyfer dydd Iau, 19 Chwefror 1959, am 10.30am er mwyn penderfynu testun a lleoliad y drafodaeth gyntaf. Yn bresennol yn Talfryn, Stanley Road, cartref Rhiannon Mansel Davies, oedd Rhiannon ei hun, *Mrs Beddows, Mrs T.I. [Mari] Ellis, Mrs D. Davies a Mrs Gwen Evans. Dewiswyd y testun 'Roof lifting', h.y. realaeth mewn llenyddiaeth, theatr a chelf, gyda chyfeiriad arbennig at 'Cat on a Hot Tin Roof'. Cynigiodd Mrs T.I. [Mari] Ellis yn garedig iawn y gellid defnyddio'i chartref hi ar gyfer y cyfarfod nesaf oedd i'w gynnal ddydd Sadwrn, 21 Mawrth, am 8pm.*

Ond cyn iddyn nhw orffen, nodwyd dwy reol sylfaenol ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp Trafod:
*1. Cytunwyd na ddylai unrhyw luniaeth heblaw te a bisgedi plaen gael ei ddarparu gan y westeiwraig – er mwyn osgoi torri ar draws y drafodaeth, a pheidio gosod gormod o faich ar unrhyw un.*
*2. Cytunwyd hefyd efallai y byddai'n beth da i ddewis gwahanol ddyddiau'r wythnos ar gyfer pob cyfarfod fel na fyddai unrhyw un yn gorfod colli cyfarfodydd yn gyson.*

Yn yr ail gyfarfod hwnnw yn 4 Maes Lowri i drafod 'Roof lifting', yn ogystal â'r pum aelod a fynychodd y cyfarfod cyntaf, roedd Mrs Eveling, Mrs Cooper a Mrs Llewelfryn Davies. *Cafwyd trafodaeth frwd ar y testun. Daethpwyd i nifer o gasgliadau amrywiol, ond cytunodd y mwyafrif nad oedd realaeth yn effeithiol os oedd yn cael ei gorwneud yn unig er mwyn bod yn* real, *h.y. er mwyn creu sioc; pan gyflwynid realaeth er mwyn tynnu sylw at rywbeth mawr o'i le mewn bywyd cymdeithasol, neu ryw ddiffyg ynddo, roedd fel arfer yn effeithiol ac yn cael ei gwerthfawrogi.*

Byddai'r cyfarfod nesaf ddydd Mercher, 6 Mai, am 8pm yng nghartref Mrs Beddows, Frondeg, Llanbadarn, pan fydden nhw'n *trafod cerddi John Betjeman, R.S. Thomas a Vernon Watkins*.

Cynhaliwyd cyfarfod olaf ei blwyddyn gyntaf ddydd Iau, 11 Mehefin, a'r pwnc trafod oedd 'Primary Education in Aberystwyth', testun a fyddai'n sicr o ennyn tipyn o drafodaeth ymysg y 13 oedd yn bresennol. Cychwynasant gydag addysg feithrin ac yna symud ymlaen i'r grwpiau oedran 4-7 a 7-11, ond cafwyd *y cyfraniadau mwyaf brwd wrth drafod yr arholiad 11+ y teimlid ei fod yn cael ei gamreoli mewn sawl ffordd. Teimlid bod gwahanu'r gymuned i ysgolion Modern a Gramadeg gyda gwisgoedd gwahanol yn wrthun mewn sawl ffordd gan ei fod yn amharu ar*

*fywyd teuluol a chyfeillgarwch plant*.

Roedd Mrs Enid Parry, gwraig y Prifathro Thomas Parry, wedi mynychu'r drafodaeth ar 'Primary Education in Aberystwyth' ac roedd hi hefyd ymhlith y deg oedd yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf y flwyddyn academaidd ddilynol, ar 13 Hydref 1959. Efallai mai'r testun 'The novels of Emyr Humphreys' a'i denodd, a'i *fenthyciadau amlwg iawn o gefndiroedd Cymreig e.e. CPC & Phrifysgol Bangor, a'i ymdriniaeth sensitif o'i gymeriadau*. Ond er gwaethaf y sylwadau cadarnhaol hyn, roedd gan y grŵp un feirniadaeth, sef *Ei wendid cymharol wrth ddisgrifio merched*.

Cawsant bresenoldeb hyd yn oed yn fwy yn eu cyfarfod nesaf ar 13 Tachwedd 1959 a gynhaliwyd yn Neuadd y Cambrian gan ei fod yn gynwysedig yn y rhaglen ar gyfer Clwb Merched y Coleg cyfan. Roedd 58 aelod yno pan *roddodd panel o aelodau'r Grŵp Trafod atebion byrfyfyr i gwestiynau ar amrywiaeth o bynciau*.

Pynciau a drafodwyd gan y Grŵp yn eu cyfarfodydd eu hunain yn ystod y flwyddyn gyntaf oedd: 'Christmas: Holy Days or Holidays'; 'The Gulf Between Arts & Science'; 'The Power of Non-violence', a 'Wales in Fact & Fiction', a diweddwyd y flwyddyn ym Mhlas Penglais ar wahoddiad Enid Parry lle trafodwyd *The Buttercup Field*, casgliad o straeon byrion gan Gwyn Jones, a oedd ar y pryd yn Athro Saesneg in Aberystwyth.

Dros yr haf cyfarfu'r Grŵp i drefnu'r rhaglen ar gyfer sesiwn 1960-61, gan ddewis y pynciau: 'We pride ourselves on our freedoms. How free are we?'; 'The works of Alan Lewis'; 'Education as a training for life'; 'The responsibility of the press', a 'The new translation of the New Testament'.

Roedd y cymysgedd hwn o bynciau llenyddol, cymdeithasol a chrefyddol, ynghyd ag argraffiadau o ddigwyddiadau a phobl, yn nodweddiadol o raglen y Grŵp am flynyddoedd lawer, e.e. 'Hinduism', 'Buddhism', 'Islam' (1961-62), 'The Tourist Industry in Wales', 'George Eliot', 'My Suburbia' (1962-63); 'Iris Murdoch', 'Honest to God' (1963-64); 'Quebec Travellers' Tales' gan Mair Williams a Beti Jones a oedd wedi treulio cyfnodau yng Nghanada a'r Unol Daleithiau pan oedd eu gwŷr yn dysgu yno. 'Harold Pinter's Tea Party' (1964-65); 'Changes in Etiquette', 'Depopulation of Mid-Wales', 'The Student's Art Exhibition' (1965-66); 'The Ceri Richards Exhibition', 'The Plowden Report', 'Mrs D.R. Thomas's visit to the USA' (1966-67). Ac ar ddiwedd yr 1960au ac i mewn i'r 70au cafwyd nifer o drafodaethau ar faterion cymdeithasol a dadleuol y dydd: 'Crime Drama on Television', 'The Reith Lecture: the family as an unit of society', 'The Doctor's Ethical Problems', 'The New Divorce Bill' (1967-68); 'The Responsibility of the Press in a Permissive Society', 'The Immigration Problem', 'Advertising' (1968-69); 'Student Unrest' (1969-70); 'The Common Market', 'The Generation Gap', 'Pollution' (1971-72). Yn 1986 fe ymunon nhw â Chlwb Merched y Coleg i drafod 'The Novels of P.D. James' cyn ymddangosiad yr awdur fel siaradwr gwadd y Clwb.

Roedd Aberystwyth wedi bod yn destun nifer o drafodaethau'r Grŵp: 'Our Town Aberystwyth' (1963); 'Aspects of Aberystwyth' (1970); 'Reorganisation and Aberystwyth' (pan ffurfiwyd Cyngor Sir Dyfed) (1975); 'Where is Aberystwyth Going?' (y cynllun datblygu arfaethedig ar gyfer y dref) (1993); 'Aberystwyth' (apêl y dref sy'n diflannu ac yn newid) (1998), ac 'Aberystwyth: improvements we would like to see' (2006). Ond ni fyddai unrhyw gyfarfod am Aberystwyth wedi achosi mwy o drafodaeth na'r un a gynhaliwyd ym mis Mawrth 1988 i drafod *Aber, Aber*, rhaglen ddogfen pryf-ar-y-pared gan S4C yn ymdrin â bywyd myfyrwyr yn y dref. Yr wythnos flaenorol roedd y Grŵp hyd yn oed wedi gorffen eu cyfarfod yn gynnar er mwyn i'r aelodau fynd adref i wylio'r rhaglen. Cawsant *drafodaeth frwd* a oedd *yn galed ar y BBC. Cyhoeddusrwydd gwael i'r Coleg. Y BBC a ddarparodd yr alcohol*.

Hyd at 1966 roedd cyfarfodydd y Grŵp Trafod wedi cael eu cynnal yng nghartrefi'r aelodau, ond yna roedd Penroc ar gael iddynt, ac yno y buon nhw tan 1971 pan gollon nhw ddefnydd o'r ystafell. Byddent yn cyfarfod wedyn naill ai yn yr Ystafell Gyffredin Hŷn neu yn Nhŷ'r Staff tan

1991 pan ddaeth Ystafell Seddon yn fan cyfarfod rheolaidd iddynt.

Ar ôl rhai blynyddoedd o gyfarfod di-dor yn Ystafell Seddon, rhwng 1998 a 2001 daeth cystadleuaeth iddynt gan grŵp ioga a ddechreuodd ddefnyddio'r ystafell ar gyfer eu cyfarfodydd er gwaetha'r ffaith fod y Grŵp Trafod wedi llogi'r ystafell gan y Coleg. Ond dyfalbarhaodd y Grŵp a llwyddo i gael mynediad i'r ystafell yn Nhachwedd 2001. *Yn Ystafell Seddon. Roeddem yn ffodus bod rhai aelodau wedi cyrraedd am 7pm ac wedi gallu hawlio'r ystafell (a logwyd gennym). Daeth y grŵp ioga ychydig yn ddiweddarach a byddent wedi meddiannu'r ystafell*. Fe lwyddon nhw eto i gyrraedd yr ystafell cyn y grŵp ioga y mis canlynol ac ar ôl hynny chawson nhw ddim trafferth.

Ond o fewn ychydig flynyddoedd roedd dyfodol y Grŵp ei hun yn y fantol. Ym mis Mawrth 2005 roedd Dr Beryl Thomas wedi ysgrifennu at Mercedes Mills, Ysgrifennydd Clwb y Merched, gan ddweud, *Fe ddywedais wrth yr aelodau cyfredol haf diwethaf mai dyma'r sesiwn olaf y byddwn i'n ymgymryd â threfnu'r Grŵp Trafod, fel y byddai gan rywun oedd â diddordeb gyfle i'w gynnig ei hun. Mae'r cyfarfodydd bob amser wedi bod yn rhai bywiog a difyr gyda'n gilydd, ond rydym i gyd yn mynd yn hŷn a mor belled does neb wedi cynnig ymgymryd â'r gwaith. Yn hytrach na gwasgu am benderfyniad gan y ffyddloniaid a drodd i fyny yr wythnos hon, dywedais y byddwn yn ysgrifennu at bwyllgor Clwb y Merched i ddweud nad oes ar hyn o bryd drefnydd gan y Grŵp Trafod ar gyfer y sesiwn nesaf. Fe ddof â'r cofnodion i'r CCB ym mis Mai fel y gellir rhoi dyfodol y Grŵp Trafod ar yr agenda, ac os na ddaw arweinydd newydd i'r fei, gellir penderfynu a ddylid dod a'r Grŵp i ben*.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf sesiwn 2005-06 ym mis Tachwedd, ac roedd yn gyfarfod arbennig i drafod 'The Future of the Discussion Group'. Roedd 14 aelod yn bresennol ac *roedd yn glir bod pob un am i'r Grŵp barhau. Ar ôl peth trafodaeth penderfynwyd rhannu peth o'r cyfrifoldeb rhwng rhai o'r aelodau*. Gwirfoddololodd Joan Conway i fod yn arweinydd, ac yn y modd hwn y goroesodd y Grŵp.

Yn CCB y Grŵp ym mis Hydref 2011 ymddiswyddodd Mercedes Mills fel Cadeirydd a chynigiodd Beryl Thomas gymryd ei lle. Cyhoeddodd Mercedes Mills newyddion am aelodau *na fydd yn gallu mynychu'n cyfarfodydd am y dyfodol agos.* Roedd Joan Conway wedi cael llawdriniaeth ar ei phen-lin ac yn gwella yn Bodlondeb, *ond mae'n debygol o gymryd mwy o amser nag a ddisgwyliwyd*. Roedd Joan Anthony-Jones yn dioddef ar ôl marwolaeth deuluol, ac roedd triniaeth Mavis Rees wedi ei gwanhau'n ddifrifol.

Goroesodd y Grŵp am flwyddyn arall, ond ym mis Hydref 2012 roedden nhw'n *dal i gadw pob drws ar agor o ran beth fydd ffurf y Grŵp Trafod yn y dyfodol. Gall fod yn Glwb Cinio gyda thrafodaeth anffurfiol i ddilyn. Mae gan y rhan fwyaf o bobl ymrwymiadau teuluol cynyddol ac ni theimlai neb y gallai lenwi swyddi gwag. Cytunodd pawb fod cwrdd â'i gilydd yn werth chweil*.

Ym mis Mawrth 2013 *cynhaliwyd cyfarfod yn nhŷ Beryl, gan ei fod yn fwy cyfleus iddi nag Ystafell Seddon. Trafodwyd dyfodol y Grŵp a phenderfynu peidio â llogi Ystafell Seddon ond i fynd ymlaen ac ailgynnull ar gyfer y Cinio Blynyddol/Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ganol mis Hydref*.

Erbyn mis Hydref ni allai Joan Conway fod yn bresennol, ond anfonodd ei chyfarchion at y Grŵp. Adroddwyd hefyd fod Kay Lewis, *un o hoelion wyth y grŵp*, wedi marw. Trafodwyd dyfodol y Grŵp unwaith eto a chytunodd Mercedes Mills i gymryd yr awenau oddi ar Beryl Thomas am y flwyddyn i ddod. Penderfynasant ddychwelyd i Ystafell Seddon, ond byrhoedlog fu hyn a chynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth 2014 i drafod 'The State of the NHS in Wales' yn nhŷ Dr Beryl Thomas. Roedd dal diddordeb brwd ymhlith y saith a fynychodd y cyfarfod, a phetai'r rhai oedd wedi anfon ymddiheuriadau am eu habsenoldeb wedi gallu bod yn bresennol, yna byddai'r *niferoedd wedi codi digon i gael trafodaeth ffurfiol*. Ond fel y bu hi, hwnnw oedd eu cyfarfod olaf, ac ar ôl 55 mlynedd o drafod ystod eang o bynciau personol, lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, daeth y Grŵp Trafod i ben.

Y Grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol

Yn CCB Clwb Merched y Coleg ym Mai 1959, pan ofynnodd y Llywydd, Dr Gwen Rees, am awgrymiadau ar gyfer rhaglen y flwyddyn ddilynol, cynigiodd Kathleen Magill *y gallai'r Clwb drefnu rhai gweithgareddau dyngarol er lles hen bobl, plant, neu'r anabl. Ar ôl tipyn o drafodaeth cynigiwyd, eiliwyd a derbyniwyd y byddai Grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei sefydlu dan Gadeiryddiaeth Mrs Magill er mwyn ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud gwaith o'r fath*. O ganlyniad cafodd yr is-grŵp a gyfrannodd fwyaf at feithrin perthynas dda rhwng y dref a'r Coleg ei eni.

Yn dilyn ei sefydlu, ym mis Mehefin cynhaliodd y Grŵp nifer o gyfarfodydd a arweiniodd at gyfres o weithgareddau dros y chwe mis dilynol:

•— *Cododd parti coffi Moes a Phryn a gynhaliwyd yn Rhydgaled, Ffordd y Gogledd, ddigon o arian i alluogi'r Grŵp i fynd â nifer o hen bobl o Aberystwyth ar wibdaith i Borth.*

•—*Cynhyrchodd sachaid o ddillad plant arian ar gyfer Blwyddyn Lloches y Byd.*

•—*Mewn cyfarfod cyffredinol o gefnogwyr y Grŵp yn Godreglais, Ffordd Caradog, adroddodd Miss Anita Williams am ymweliad gan y pwyllgor â dau gartref plant (math uned deuluol) yn sir Aberteifi. Cytunwyd y dylid cynnal parti ar gyfer y plant yn y cartref yn Aberteifi ychydig ar ôl y Nadolig a byddai aelodau yn darparu llety dros nos. A dylid mynd â'r plant yng nghartref Llanybydder i'r pantomeim yn Aberystwyth*.

•— Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Lun, 9 Tachwedd, trafodwyd sefyllfa gwragedd myfyrwyr tramor y teimlid eu bod ar eu pennau'u hunain yn Aberystwyth. Erbyn y cyfarfod nesaf roedd rhestr o'r gwragedd *wedi cael ei darparu gan Swyddog Lles y Coleg a chytunwyd y dylai aelodau'r pwyllgor ymweld â nhw a gwahodd unrhyw blant cymwys i'r parti Nadolig. Dywedodd Mrs Magill y byddai'n ymweld ag aelodau'r Clwb gyda'r bwriad o'u rhoi nhw mewn cysylltiad â gwragedd myfyrwyr tramor unig oedd yn byw gerllaw*.

•—Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mercher, 16 Tachwedd, *adroddodd Mrs Anita Williams ei bod wedi anfon casgliad o gêmau i'r cartref plant yn Allt-y-blaca (Llanybydder), ac amrywiaeth o dân gwyllt i'r cartref yn Aberteifi*.

•— Mewn cyfarfod pwyllgor a gynhaliwyd ddydd Sul, 13 Rhagfyr, cwblhawyd y trefniadau ar gyfer parti Nadolig y plant y Sadwrn canlynol, 19 Rhagfyr, yn Ffreutur y Coleg gyda chaniatâd Undeb y Myfyrwyr. Byddai Dr Mervyn Jones yn darparu cludiant yn ei Dormobile. Cynorthwyodd aelodau gyda'r lluniaeth ac os oedd ganddynt blant rhwng 5 a 12 oed byddent yn cael gwahoddiad. Darparodd Mrs Kathleen Magill goeden Nadolig a gofynnwyd i ferched pedair o'r aelodau gynorthwyo i drefnu gêmau: C. Gapper, B. Nash, G. Aaron a J. Richards.

A doedd dim llaesu dwylo yn y Flwyddyn Newydd.

•—Yn y cyfarfod ddydd Gwener, 1 Ionawr, adroddwyd bod y parti coffi wedi codi £60 ar gyfer Blwyddyn Lloches y Byd. Hefyd bod parti'r plant wedi bod yn llwyddiant ac *wedi cyflwyno plant Aberteifi i gartrefi yn Aberystwyth*.

•—Trefnwyd sioe ffilmiau ar gyfer trigolion Bronglais ddydd Iau, 13 Ionawr, a grŵp ar y cyd o Avondale a Deva ddydd Gwener 14eg.

Er na chynhaliwyd CCB cyntaf y Clwb Gwasanaethau Cymdeithasol tan Hydref 1961, pan luniwyd eu Cyfansoddiad gan ddatgan mai *nod y Grŵp yw gwneud gwaith cymdeithasol a lles yn bennaf yn Aberystwyth a'r cyffiniau*, roeddent eisoes wedi sefydlu perthynas rhyngddyn nhw a'r prif sefydliadau a'r bobl leol a fyddai'n elwa o'u hymroddiad a'u gwaith caled yn ystod y deugain mlynedd nesaf.

Trefnodd y Grŵp barti Nadolig ar gyfer cartrefi plant Ffynnon Bedr, Erw Lon a Chartrefle yn sir Aberteifi yn 1959 a byddent yn parhau i wneud hynny, yn ogystal â threfnu teithiau i weld pantomeimiau yn Aberystwyth ac Abertawe, gyda pheth arian poced, tan 1980. Rhoddid anrhegion Nadolig iddynt hefyd, *hyd at £3 i bob plentyn yn y cartrefi* yn 1979, ond nid adeg y Nadolig yn unig y câi'r plant eu cofio.

Yn 1962 cafodd y Grŵp lythyr gan Swyddog Plant y Sir yn diolch iddynt am drefnu *gwyliau i'r plant yng Nghlarach adeg y Sulgwyn*. Yn 1963 llogwyd dwy garafán iddynt yng Nghlarach a pharhawyd i wneud hynny tan 1976. Yn 1972 rhoesant 10/- arian poced yr un i'r plant i'w wario ar eu gwyliau. Yn 1976 llogwyd dwy garafán ym Mhentref Gwyliau Aberystwyth am yr wythnos 29 Mai i 5 Mehefin am £119.88 ar gyfer 16 o blant a 4 gofalwraig o Ffynnon Bedr, Llanbedr Pont Steffan. Ac nid anghofiwyd plant Cartrefle ac Erw Lon; trefnwyd gwibdaith diwrnod i Aberystwyth iddyn nhw ym mis Awst, ynghyd â £1.50 arian poced.

Telid am garafanau ar gyfer gwyliau'r plant drwy gydol yr 1970au a'r 80au, ond erbyn 1987 Ffynnon Bedr oedd yr unig gartref plant ar ôl yn sir Aberteifi. Roedd Cartrefle wedi cau ym mis Mawrth 1980, ac Erw Lon cyn diwedd y flwyddyn. A byddai'r newid ym mholisi gofal plant y sir yn effeithio ar Ffynnon Bedr hefyd yn y pen draw. Adroddodd y Grŵp yn 1990 fod yna *sïon ei fod yn mynd i gau, ond dim byd pendant*, felly aethant ymlaen i gefnogi'r plant drwy logi gwyliau carafán arall ar gyfer Gŵyl Banc y Gwanwyn. Ym mis Hydref gadawodd y metron, a *byddai'r cartref yn cau ar ôl dod o hyd i le ar gyfer y tri phlentyn oedd ar ôl*. Erbyn yr Hydref dilynol roedd y plant wedi mynd i gartref maeth a gofynnwyd i'r Grŵp a fyddent yn barod i *dalu am lenni a gorchuddion dwfe. Byddent yn rhoi llenni fel anrheg cartref newydd, a gorchuddion dwfe fel anrhegion Nadolig hyd at £250*.

Daeth cysylltiad 33 mlynedd y Grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol â 'phlant Ffynnon Bedr' i ben yn 1992 pan adroddwyd gyda pheth balchder yn y CCB eu bod wedi gadael y cartref maeth, a bod un o'r bechgyn *wedi ennill 5 TGAU ac yn gweithio i'w ewythr, adeiladydd, yn Hwlffordd, ac yn byw yn hapus gyda'i chwaer*. Ac roedd y ferch *yn cael ei hyfforddi yng Nghartref Bron Aeron, Felin-fach, ar Y Cynllun Hyfforddi Ieuenctid (YTS). Mae'n byw yn annibynnol mewn fflat ac yn gwneud yn dda*.

Parhaodd cefnogaeth y Grŵp i'r cartrefi hen bobl Bodlondeb, Avondale a Deva. Yn dilyn y sioeau ffilm yn Ionawr 1960, ym mis Mehefin aeth y Grŵp â rhai o'r trigolion ar wibdaith i Borth, ac yn dilyn llwyddiant honno trefnwyd un arall i Bontarfynach ym mis Medi. Ac yn ystod 1961 *gwnaeth Miss Powys Roberts a Mrs Morgan Jones eu drama Fictoraidd fach, a darparodd grŵp canu Mrs Owen* [y Côr] *yr adloniant i'r Cartrefi Hen Bobl*. Penderfynodd y Grŵp y byddent yn gadael ymweliadau â chleifion yn Bronglais i grwpiau eraill a oedd wedi bod yn gwneud hynny ers blynyddoedd, ac yn parhau â'r gwibdeithiau gan fod *y bobl yn amlwg yn eu mwynhau*. Roeddent yn eu mwynhau cymaint fel eu bod wedi trefnu taith arall i Borth ym Mehefin 1961, ac i'r gerddi yn Nhrawsgoed, ac ymddangosodd adroddiadau yn y *Cambrian News*.

Ym Mehefin hefyd, canodd y Côr a'r Grŵp Drama hen ganeuon i drigolion Deva, ac roedd *mor llwyddiannus, dylid gwneud pob ymdrech i'w ailadrodd*. Ac fe wnaethon nhw hynny ym mis Tachwedd pan gynhaliodd y Côr a disgyblion Ysgol Ramadeg Ardwyn (a oedd yn cynnwys plant aelodau'r Grŵp) gyngerdd i'r trigolion. Pan gynhaliwyd cyngerdd tebyg ym mis Mawrth y flwyddyn ganlynol, yn ogystal ag eitemau gan *gôr Clwb Merched y Coleg a disgyblion Ardwyn, byddai yna ganeuon gan fyfyrwyr tramor*.

Ers i sefyllfa gwragedd myfyrwyr tramor ddod yn hysbys i'r Grŵp, roedden nhw wedi gwneud ymdrech i gadw mewn cysylltiad â nhw drwy gynnal parti coffi ym Mehefin 1960, ond *er bod saith wedi cael eu gwahodd, dim ond pedair a dderbyniodd. Yn dilyn y parti nododd y pwyllgor mai'r prif broblemau oedd yn wynebu'r gwragedd oedd llety ac iaith*. Ac felly ym Mehefin 1961 penderfynwyd *cynnal cyfres o anerchiadau ar ddechrau sesiwn 1961-62 gan bobl leol â gwybodaeth arbenigol am: Siopa; y Gwasanaeth Iechyd; Mannau o Ddiddordeb yn Aberystwyth a'r cyffiniau; yn ogystal â gwresogi, dillad, golchi a choginio*.

Anfonid anrhegion Nadolig i'r gwragedd, trefnid adloniant – *datganiad piano gan Josephine Anthiano o Singapore* (Tachwedd 1963) – a chludiant i fynd â *gwragedd a phlant y myfyrwyr tramor i barti a drefnwyd gan y Cyngor Prydeinig ym Mhenglais* yn Rhagfyr 1964. Ac ym mis

Mai 1966 trefnodd y Grŵp *daith gyda'r nos i Aberdyfi iddynt, ac yna te yng Nghaffi Cletwr*. Ond ar ôl hynny does dim cyfeiriad at y myfyrwyr tramor a'u teuluoedd tan 1974 pan ofynnodd Mair Williams a fyddai'r Grŵp yn talu am *set o lyfrau Saesneg i'r gwragedd tramor*. Cytunwyd i hynny *ar yr amod bod y gwragedd yn talu ychydig bob tro y byddent yn defnyddio'r set*.

Ond parhaodd y cysylltiad â thrigolion Bodlondeb, Avondale a Deva. Rhoddwyd cyngerdd Nadolig 1962 gan Gantorion Madrigal y Coleg, a pherfformiodd Ysgol y Cwfaint Padarn Sant ddrama'r Geni iddynt yn yr ysgol. Parhaodd y cyngherddau i'r trigolion drwy gydol y blynyddoedd dilynol, a hefyd y teithiau i Drawsgoed a'r Fridfa Blanhigion ym Mhenrhyn-coch, yn ogystal â Borth a Chastell Glandyfi lle *darparodd y perchnogion de i'r hen bobl a'u tywys o gwmpas y castell*. Ond nid y teithiau hyn yn unig a drefnid, oherwydd byddai'r aelodau hefyd yn eu gwahodd i mewn i'w cartrefi i gael te, a Kathleen Magill yn trefnu ceir i'w cludo.

Dewisodd un ohonyn nhw, Margaret Alban Davies, a fu'n Aelod Anrhydeddus o Glwb Merched y Coleg o'r dechrau, gynnal te i drigolion Deva yn ei chartref, Brynawelon, Llan-non. Nid oedd hyn yn syndod gan mai ei thad-yng-nghyfraith, David Alban Davies, fu'n gyfrifol am brynu Deva ar gyfer Cymdeithas Cartrefi Hen Bobl Aberystwyth a'r Cyffuniau pan oedd yn gadeirydd y gymdeithas. Bu'n gyfrifol hefyd am brynu Ystad Penglais i'r Brifysgol yn 1946 ac am sicrhau Plas Penglais fel cartref i'r Prifathro. O fewn ychydig flynyddoedd byddai Plas Penglais ei hun yn dod yn ganolbwynt i weithgareddau codi arian y Grŵp.

Ffurfiwyd y Grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol ar awgrym Kathleen Magill, a hi fu'r arweinydd a'r prif ysgogwr byth oddi ar hynny. Yn 1964 daeth ei chyfnod fel Llywydd i ben ond gofynnwyd iddi *barhau fel llywydd y grŵp am flwyddyn arall, gan nad oedden nhw'n credu y gallai unrhyw aelod arall o'r pwyllgor wneud cystal gwaith â hi*. Cytunodd, ond ym mis Mai 1965 dywedodd wrth y Pwyllgor ei bod *wedi penderfynu ymddeol o lywyddiaeth y grŵp ar ddiwedd y tymor,* er y byddai'n aros ar y Pwyllgor. Roedd hyn yn ergyd i'r Grŵp, yn enwedig gan nad oedd unrhyw un arall yn fodlon ymgymryd â'r gwaith, ac yn eu cyfarfod nesaf ym mis Medi *trafodwyd dyfodol y grŵp,* a *byddai aelodau'n mynd i holi un neu ddau berson a fydden nhw'n fodlon gwasanaethu ar y pwyllgor*. Yn y diwedd cytunodd Mrs Vanstone i fod yn Llywydd, gyda Mrs Williams yn Ysgrifennydd a Mrs Johnston yn Drysorydd. Yn galonogol roedd sefyllfa ariannol y Grŵp yn *eithaf boddhaol, gan fod gennym £50 mewn llaw*.

Byddai £50 wedi bod yn ddigon i brynu anrhegion i'r plant a thrigolion y cartrefi hen bobl y Nadolig hwnnw, ond os oedd y swyddogion i barhau â'u holl waith yn 1966, byddai'n rhaid iddynt ddechrau codi rhagor o arian.

Mae Cyfarfod Pwyllgor Ionawr 1972 yn cofnodi: *y gronfa'n llawer is ar ôl gwariant y Nadolig ac awgrymwyd y dylid cynnal Ffair Sborion cyn gynted ag sy'n bosibl*. Nodwyd 'gwariant y Nadolig', ynghyd â gweithgareddau eraill, yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol dan y pennawd 'Gweithgareddau'r Nadolig':

***Ysbyty Ffordd y Gogledd**: Bydd Mrs Owen Davies a Mrs Wynn Jones yn gwneud y blodau ar gyfer y neuadd a'r capel eto. Cawn wybod gan y Metron os bydd angen rhoddion personol ar unrhyw gleifion (h.y. ddim yn disgwyl dim o gwbl). Gofynnir i Mrs Betty Kitchen ddod a'r côr i ganu carolau ar y wardiau. Byddai aelodau'n cynorthwyo staff i addurno ar y 23ain.*

***Bodlondeb**: I ddarparu ar gyfer 19 o drigolion (12 dyn, 7 menyw). Penderfynwyd rhoi sigârs i'r dynion, a theis i'r rhai nad oedd yn ysmygu, a sebon a thalc i'r menywod. Gwneir ymholiadau ynglŷn â'r ffilm Feiblaidd neu ffilm yr Hafod i Fodlondeb ar ôl y Nadolig.*

***Avondale**: Anrhegion i'r rhai sy ddim yn debygol o dderbyn rhai, fel uchod i 4 dyn a 4 menyw. Hefyd parti ar ôl y Nadolig, gydag ymweliad gan y côr.*

***Deva**: Anrhegion fel uchod i 3 dyn a 3 menyw.*

*Byddai **Bodlondeb, Avondale a Deva** hefyd yn cael poteli o sieri (6 i Fodlondeb, 3 yr un i'r lleill) a jariau o losin (6 i gyd).*

***Pantomeim**: Adroddodd Mrs Wynn Jones fod tocynnau wedi'u bwcio ar gyfer 6 oedolyn a 24 plentyn. Penderfynwyd rhoi 50c arian poced yr un iddynt*.

***Cyfraniadau**: Penderfynwyd rhoi £10 yr un i Fws Cynghrair y Cyfeillion a Chronfa Achub y Plant.*

Dyna restr siopa ac ymrwymiadau sylweddol, ac nid ar gyfer y flwyddyn honno yn unig, ond bob blwyddyn roedd y Grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol yn bodoli. Er enghraifft, dros y 30 mlynedd y buon nhw'n rhoi anrhegion Nadolig i Fodlondeb, Avondale a Deva, derbyniodd y cartrefi dros 300 o boteli o sieri neu win.

Ac roedd angen incwm cyson arnynt ar gyfer yr holl waith gwirfoddol arall roedden nhw'n ei wneud, a'r elusennau a'r grwpiau roedden nhw'n eu cefnogi yn ystod 11 mis arall y flwyddyn. Yn ogystal â ffeiriau sborion, fe drefnon nhw arwerthiannau moes a phryn, siopau un diwrnod neu bron yn newydd, a boreau coffi. Cynhelid y ffeiriau sborion yn Chwefror neu Fawrth fel arfer, er mwyn ail-lenwi eu cyfrif banc ar ôl y Nadolig, a hynny naill ai yn Neuadd y Plwyf neu Neuadd yr Eglwys Gatholig, a'r aelodau'n casglu'r sborion ac yn gofalu am y stondinau.

Ar gyfer y siopau un diwrnod neu bron yn newydd byddai'r grŵp naill ai'n cymryd siop wag drosodd, *megis y siop feiciau yn Heol y Wig neu'r siop ffrwythau yn Fford y Môr, neu Hen Swyddfa'r Heddlu ar y Ffordd Fawr*. Ar ôl penderfynu ar y lleoliad, byddent yn dodrefnu'r siop â rheiliau dillad a fenthyciwyd o olchdai neu siopau dillad fel Cardigan House a Morgan & Jones ac yn eu llenwi â chyfraniadau gan gyfeillion a chymdogion yr aelodau. Yn y modd hwn byddent yn codi cannoedd o bunnau bob blwyddyn.

Ond eu prif achlysur codi arian yn ystod yr 1970au a'r 80au oedd y bore coffi blynyddol ym Mhlas Penglais. Pan ddaeth Goronwy Daniel yn Brifathro yn 1969 gofynnodd i'r Grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol a fydden nhw'n *cefnogi'r syniad o drefnu garddwest ar dir Plas Penglais ar y cyd â'r myfyrwyr. Yr elw fyddai ein cyfraniad ni tuag at ben-blwydd 25ain Cronfa Apêl y Cenhedloedd Unedig*. Dyma'r cyntaf o lawer o achlysuron a gynhaliwyd yn y Plas, oherwydd pan gyrhaeddodd yn Aberystwyth, ymunodd y Fonesig Valerie Daniel â Chlwb Merched y Coleg, a daeth yn gefnogwr ac yn gyfrannwr cyson i waith y Grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol, yn enwedig yn eu gwahodd i ddefnyddio cartref y Prifathro bob mis Mai ar gyfer eu bore coffi. Roedd trefnu nid yn unig coffi ar gyfer dros 350 o bobl, ond hefyd stondinau planhigion a theisennod, yn gryn ymgymeriad i grŵp o tua dwsin, ond byddai aelodau eraill Clwb Merched y Coleg hefyd yn eu cynorthwyo.

Dilynwyd Syr Goronwy Daniel gan Gareth Owen, a'r Fonesig Valerie gan Beti Owen a roddodd yr un gefnogaeth gref i weithgareddau'r Grŵp. Yn 1990, pan ymddeolodd Gareth Owen, collodd y Grŵp y defnydd o'r Plas, ond parhaon nhw i drefnu boreau coffi i godi arian, yn gyntaf yng Nghanolfan Fethodistaidd St Paul ac yna yn Ystafell Seddon.

Aeth yr arian a godwyd tuag at lawer o achosion da: Cartref Menter Ockenden, Aberdyfi, Clwb 60 Aberystwyth, Pryd ar Glud, Cyfeillion Ysbyty Dewi Sant, Caerfyrddin, Canolfan yr Anabl, Llanbadarn, Canolfan Coedlan y Parc, Canolfan Hyfforddi Oedolion, Ward Plant Bronglais, yn ogystal ag Oxfam, Rhyfel yn Erbyn Angen, Dr Barnardo, Cronfa Achub y Plant a Shelter – gan gynorthwyo hefyd rai unigolion roedd angen cefnogaeth ariannol arnynt.

Oherwydd eu gweithgareddau a'u consyrn amlwg am faterion lleol, gwahoddid aelodau i fod yn gynrychiolwyr ar nifer o bwyllgorau lleol, megis y Pwyllgor Prawf ac Ôl-ofal, y Grŵp Cynnal Cyfarwyddo Priodasol, y Lloches i Ferched, Cyngor ar Bopeth, a Phwyllgor Gefeillio'r Dref â St Brieuc.

Ond er gwaethaf eu llwyddiannau niferus a'u henw da, trafodwyd dyfodol y Grŵp yn aml dros y blynyddoedd: yn 1964, pan ymddeolodd Kathleen Magill fel Llywydd; yn 1981 ac 1983 am eu bod yn grŵp bach ac yn methu denu aelodau newydd. Erbyn 1995 roedd aelodaeth y Grŵp yn disgyn a'r aelodau'n heneiddio, ac yn y CCB yn dilyn bore coffi a gododd £159, trafodwyd dyfodol y bore coffi oherwydd *gan mai dim ond naw aelod sy gennym bellach, 4 dros 80, 2 dros 70 a 3 dros 60, sylweddolwyd na allwn gynnal bore coffi arall heb gymorth*. Fe lwyddon nhw i

gael cymorth a pharhau i gynnal y boreau coffi naill ai yn Ystafell Seddon neu Frynamlwg am rai blynyddoedd pellach, ond ar ôl 1999 ni chynhaliwyd rhagor o weithgareddau codi arian.

Yn CCB 2000 Clwb Merched y Coleg penderfynodd y Grŵp i *beidio â dod i ben; i orffen codi arian ond i ddefnyddio'r arian mewn llaw; i barhau i gyfarfod yn gymdeithasol a chadw llygad ar y sefyllfa*, ac o hynny ymlaen byddai aelodau'n cyfarfod unwaith y flwyddyn i fynd am dro a chael cinio yng Ngwesty'r Conrah. Byddent yn parhau hefyd i brynu anrhegion Nadolig ar gyfer Ward Angharad, Bronglais, Canolfan Llanbadarn, Deva, cartrefi Havelock a Bodlondeb a'r Lloches i Ferched. Yn 2001 gwariwyd £57.70 ar anrhegion, ac yng nghyfarfod olaf y Grŵp yn Chwefror 2002, *cynigiodd Peggy Jones, a'i heilio gan Margaret Pyle, y dylwn roi'r gweddill o £18.51 i'r gangen leol o Fyddin yr Iachawdwriaeth. Teimlai Mary Llewelfryn Davies y dylwn barhau. Mae'r llyfrau cofnodion i fynd i brif gofnodion y Clwb Merched*.

## Y Grŵp Blodau

*Cychwynnwyd y Grŵp Blodau yn 1973 gan Margaret Owen Davies, a dysgodd llawer ohonom sut i drefnu blodau yn y cyfarfodydd bore Gwener misol yn Nhŷ'r Staff, yn darparu trefniannau ar gyfer cyfarfodydd nosweithiol Clwb Merched y Coleg,* meddai Jenny John yn ei hadroddiad ar y Grŵp yn CCB Clwb Merched y Coleg, 12 Mai 2000. Yr aelodau a fynychodd gyfarfod cyntaf y Grŵp Blodau ar 7 Mehefin 1973 oedd Gwyneth Trott, Peggy Jones, Kathleen Magill, Nansi Davies, Morfudd Moelwyn Hughes, Lynne Lewis, Dr Anita Williams a Janet Davies a chafwyd ymddiheuriadau gan Margaret Dyfri Jones, Mary Llewelfryn Davies, Joyce Bradshaw a Dorothy Saunders.

Yn ystod 1973 tyfodd yr aelodaeth i 25, ond yn ôl y cofnodion roedd y nifer fyddai'n mynychu'r cyfarfodydd fel arfer tua 15. Mae'r cofnodion hefyd yn nodi themâu'r trefniannau blodau a wnaethant yn ystod y flwyddyn gyntaf: *Trefniannau blodau'r hydref a'r cynhaeaf; Addurniadau Nadolig i'w hongian; Trefniant blodau sych; Trefniannau cymysg, o bosib yn addas i'w dangos mewn bore coffi* roedden nhw'n ei drefnu ar gyfer 4 Ebrill yn Nhŷ'r Staff i godi arian ar gyfer y Grŵp.

O fewn blwyddyn roedd y Grŵp wedi penderfynu bod trefniannau blodau *i gael eu darparu i hen bobl oedd ar eu pennau eu hunain yn Deva ac Avondale adeg eu pen-blwydd*, ac erbyn 1975 cofnodwyd bod *y blodau i'r cartrefi hen bobl yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Darparwyd dros 60 o drefniannau, ac i 5 hen berson, dyna'u hunig anrheg ar eu pen-blwydd olaf*. Parhaodd y trefniant hwn tra bod cartrefi Deva ac Avondale ar agor.

Cafodd arddangosiadau ar themâu gan y Grŵp yng nghyfarfodydd misol Clwb Merched y Coleg eu cofnodi gyntaf yn CCB 1977 pan *ddiolchodd Nansi Davies i Lynne Lewis am ei chefnogaeth i'r Clwb Merched yn ystod y flwyddyn drwy ddarparu trefniannau blodau ar gyfer y cyfarfodydd.* A byddai'r arddangosiadau hyn yn gyfraniad cyson gan y Grŵp Blodau am lawer o flynyddoedd. Ond doedd un arddangosiad ar gyfer cyfarfodydd nos Wener yn ddim i'w gymharu â'r hyn a baratowyd gan y Grŵp ar gyfer Clwb Merched y Coleg yn Neuadd y Cambrian ddydd Gwener, 8 Hydref 1976, pan ddaeth 85 aelod (gan gynnwys 18 o'r aelodau gwreiddiol) ynghyd i ddathlu 21ain pen-blwydd Clwb Merched y Coleg. *Roedd Morfudd Moelwyn Hughes wedi gwneud teisen pen-blwydd, a'r Grŵp Blodau wedi gwneud 21 o drefniannau blodau yn lliwiau coch a gwyrdd y Coleg i addurno'r ystafell*.

Yn dilyn y cyfarfod hwnnw ymddangosai fel petai'r Grŵp yn mynd o nerth i nerth, er gwaethaf gostyngiad bychan yn yr aelodaeth, fel mae eu hadolygiad o sesiwn 1977-78 yn dangos: *Rydym wedi cyfarfod unwaith y mis yn gyson drwy gydol y flwyddyn, gan gychwyn ym mis Medi* [ac] *ar y cyfan cafwyd presenoldeb da yn y cyfarfodydd, er bod y niferoedd yn isel yn y gaeaf. Cychwynnodd y grŵp y flwyddyn gydag 20 aelod, a bellach mae 18. Mae'n dyddiaduron ar gyfer y tymor nesaf eisoes yn cael eu llenwi gan ein bod wedi cael cais i wneud y blodau ar gyfer priodas merch Hazel Sinclair ym mis Medi*.

Dros y blynyddoedd nesaf cefnogodd y Grŵp Blodau weithgareddau Clwb Merched y Coleg a'i chwaer is-grŵp, y Grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol, drwy ddarparu trefniannau blodau fel anrhegion pen-blwydd ac arddangosiadau Nadolig ar gyfer Avondale, Bodlondeb, Deva ac Ysbyty Ffordd y Gogledd. Ac oherwydd hyn teimlai'r aelodau y dylent *dderbyn grant gan Glwb Merched y Coleg i gynorthwyo i dalu am y blodau rydym yn eu gwneud ar gyfer cyfarfodydd nos Wener yn Ystafell Seddon. Mae hon yn ystafell fawr ac mae'n anodd gwneud argraff heb lawer o flodau. Cafodd yr holl flodau a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfarfodydd misol eu darparu a'u prynu gan ein grŵp*. Atebwyd eu cais â grant o £15, yn codi i £20 yn 1982, ar gyfer darparu *un trefniant ar fwrdd y Siaradwr, ac un bach ar fwrdd y Trysorydd*.

Fodd bynnag, yn CCB 1989 lleisiwyd gofid am ddyfodol y Grŵp Blodau, ond dywedodd Peggy Anne Jones wrth yr aelodau fod *Margaret O. Davies am i'r grŵp barhau*. Ac er gwaethaf dim cadeirydd a dim cyfarfodydd misol, parhaon nhw i wneud trefniannau i'r Clwb a Deva. Codwyd arian ar gyfer anrhegion Deva drwy gynnal stondinau poteli ym more coffi'r cartref, gan godi rhwng £40 a £60 y flwyddyn.

Yn 1992 diolchwyd i Margaret O. Davies, Peggy Jones, Cicely Edwards a Mavis James am *drefnu'r blodau yn Eglwys Llanbadarn ar achlysur trist gwasanaeth coffa Jane Morgan* [gwraig y Prifathro Kenneth O. Morgan]. *Yn ddiweddarach aethpwyd â'r blodau i Deva*.

Ar ôl i Dŷ'r Staff gau yn 1991, cyfarfu'r Grŵp yng nghartrefi'r aelodau, ac wrth i nifer trigolion Deva gynyddu, i 27, disgyn wnaeth nifer aelodau'r Grŵp Blodau, i 6, a gofynnwyd i'r aelodau *geisio gwneud o leiaf 4 trefniant* yr un. Ond erbyn 1997 adroddwyd gan fod Deva *wedi colli 12 o drigolion yn ystod y flwyddyn diwethaf, a bod 3 ystafell wag yn dal i fod yna, wyddwn ni ddim am ba hyd y byddwn yn gallu parhau*.

Wrth ddiweddu ei hadroddiad yn CCB Clwb Merched y Coleg, 12 Mai 2000, dywedodd Jenny Jones: *Yn anffodus mae nifer ein haelodau wedi disgyn dros y blynyddoedd a bellach dim ond pum aelod gweithredol sy gennym. Efallai y dylwn ein galw'n hunain 'Y Pump Blodeuog'. Rydym yn dal i gynnal ein cinio blynyddol lle rydym yn cynllunio'n gweithgareddau, sy'n cynnwys darparu blodau ar gyfer pen-blwyddi trigolion Deva. Rydym yn mawr obeithio y bydd yna ddyfodol i Glwb Merched Prifysgol Cymru, ac fe'i cefnogwn fel arfer*.

Parhaodd y Pump Blodeuog tan 2005, ond erbyn 2006 roedd y nifer wedi disgyn i dair: Peggy Jones, Mary Llewelfryn Davies ac Anne Reynolds. *Dwi'n ofni*, ysgrifennodd Peggy Jones, *fod y Grŵp Blodau'n bodoli mewn cylchoedd lleihaol parhaol. O'r uchafbwynt yn 1973 mae ein niferoedd wedi disgyn i dair . . . Hydref diwethaf, pan oedd Clwb Merched y Coleg yn dathlu 50 mlynedd o oroesi, bu'n rhaid i Deva gau ei ddrysau am y tro olaf. Gan mai trigolion Deva oedd ein prif raison d'être, prin y gall y tair ohonom ddod i ben â gwneud rhywbeth ar gyfer cyfarfodydd y Clwb Merched*.

Yn 2007, a Deva wedi cau, a'r newyddion *nad yw Bronglais bellach yn caniatáu i ni fynd â blodau i gleifion yno*, byddai Peggy Jones ac Anne Reynolds *yn darparu blodau ar gyfer cyfarfodydd Clwb y Merched yn unig*. Ond o fewn blwyddyn roedd Peggy ar ei phen ei hun. *Ar ôl 35 mlynedd o fod yn aelod o'r Grŵp Blodau, dwi wedi bod yn gweithredu'n unigol eleni, yn darparu saith trefniant ar gyfer Clwb Merched y Coleg, ond yn dibynnu'n helaeth ar bouquets parod a fasys Morrison's*. Ac er ei bod yn barod i barhau, teimlai *y bydd yn amser i fi ymwahanu fy hun yr adeg hon y flwyddyn nesa*.

A'r flwyddyn ganlynol gwelwyd adroddiad Grŵp Blodau olaf Peggy Jones i CCB Clwb Merched y Coleg. *Gan fy mod wedi penderfynu llynedd y byddwn yn ymwahanu fy hun, ychydig iawn o drefniannau wnes i, a heno yw'r olaf. Er nad wyf yn chwarae 'bridge' fy hun, roedd yn flin iawn gen i weld y Grŵp Bridge yn dod i ben, ond mae'r Grŵp Trafod yn dal i ffynnu. Yn ystod y 55 mlynedd diwethaf mae llawer o grwpiau wedi mynd a dod, a does dim rheswm pam na allwn ni gychwyn grwpiau eraill i ddathlu ein Pen-blwydd Emrallt, neu ailgychwyn rhai sy wedi dod i ben. Dwi'n credu mai'r rheswm dyw llawer o bobl ddim yn hoffi mynychu Clwb Merched y Coleg*

*yw'r ffaith ei bod hi'n anodd parcio'n agos at Ystafell Seddon, ac yn ystod misoedd y gaeaf mae'n dywyll ac weithiau'n oer a gwyntog, ond mae'r grwpiau eraill yn aml yn cyfarfod mewn mannau eraill, ac yn ystod y dydd pan mae'n olau. Buom yn cael Ffrangeg a Rwsieg llafar; efallai byddai rhai ohonom yn dymuno cael iaith arall. Bu grŵp gwyddbwyll ar un adeg; efallai y gellid sefydlu grŵp Scrabble o fewn y Clwb, neu grŵp 'Merched sy'n Ciniawa'. Dwi'n sylweddoli na fyddai llawer ohonom yn gallu cynhyrchu plant bach ar gyfer Grŵp Mam a'i Phlentyn, ond dwi'n siŵr bod yna rai syrffwyr gwe ariannaidd a fyddai'n mwynhau'r budd a gaent o feistroli'r cyfrifiadur. Rydym wedi cael ein boddi gan snwcer ar y teledu yn ein tŷ ni yn ddiweddar. Dwi'n gweld bod yna fwrdd yma ym mhen draw'r bar, a bwrdd dartiau, ond os nad yw hynny'n apelio, efallai bod gwau neu glytwaith yn fwy at eich dant. Os gwelwch yn dda ystyriwch adfywio hen ddiddordebau, neu ymchwilio i syniadau newydd, a gofyn i'r pwyllgor a fydd hi'n bosib cychwyn grŵp newydd ar gyfer y sesiwn nesaf.*

Ond doedd hynny ddim i fod.

## 'Yr hyn y mae Clwb Merched y Coleg wedi'i olygu i fi'

*Cyrhaeddon ni Aber ym mis Tachwedd 1963 felly collais yr holl ymweliadau cyflwyno gan aelodau'r Clwb Merched i wragedd newydd. O ganlyniad ddes i ddim yn gyfarwydd a'r Clwb tan fy ail flwyddyn yma. Fodd bynnag bu'r Clwb yn dda iawn i fi wedyn (blwyddyn academaidd 1964/1965) gan i mi gwrdd â gwragedd ifainc eraill yno, a sawl un yn feichiog – fel finnau! Cofiwch fod cynnydd mawr mewn staff yn yr 1960au cynnar wrth i brifysgolion ehangu. Yn aml byddai staff (gwrywaidd fel arfer) yn eu hugeiniau cynnar, newydd briodi ac yn cynhyrchu teuluoedd – byddai cyflogau prifysgol hyd yn oed yn cynnwys ychwanegiadau ar gyfer pob plentyn! Cyfarfûm â llawer o wragedd ifainc o'r un oedran ac anian â fi yng nghyfarfodydd Clwb yr 1960au, a gwnes gyfeillion oes. Ai dyna oes aur y Clwb Merched? Efallai byddai niferoedd aelodaeth yn eich goleuo.*

*Cynorthwyodd y Clwb fi hefyd i sylweddoli sut roedd y Brifysgol (Coleg bryd hynny) yn gweithio yn fewnol ac yn allanol. Yn fwyaf arbennig dysgais sut roedd yn ymdoddi'n rhwydd i dirwedd Aberystwyth. Cyn hynny bu gan y ddau ohonom swyddi yn Llundain oedd yn golygu teithio i'r gwaith, a dwi'n credu 'mod i wedi bron ag anghofio ei bod hi'n bosib byw, gweithio ac ymlacio o fewn yr un gymuned. Cynorthwyodd y Clwb Merched fi i ailgysylltu â'r syniad hwnnw o'm plentyndod.*
**Margaret Bateman (1964-2014)**

*Pan ddaethon ni i Aber yn 1966 doeddwn i ddim yn adnabod neb, a ganed Ann dair wythnos ar ôl i ni gyrraedd. Galwodd Mary Brown i 'ngwahodd i'm cyfarfod cyntaf ac roedd hi'n wych i ddychwelyd i fyd nad oedd yn cael ei reoli gan boteli llaeth a chlytiau!*

*Am y blynyddoedd olaf cyn i ni adael Aber roedd y Grŵp Drama wedi dod i ben, felly ymunais a'r Grŵp Trafod, a arweinid gan Beryl Thomas a Jean O.R. Jones ymhlith eraill. Fe drafodon ni sawl pwnc diddorol a nifer o lyfrau na fydden i wedi'u darllen fel arall.*

*At ei gilydd roedd y Clwb Merched yn rhan bwysig o fy mywyd yn Aber, a rhoddodd i fi lawer o ffrindiau a phrofiadau diddorol.*
**Elizabeth Pritchard (1966-2006)**

*Pan symudais i Aberystwyth yn 1970 doeddwn i ddim yn gymwys i ymaelodi â'r Clwb gan nad*

*oedd fy ngŵr yn gweithio i'r Coleg. Fodd bynnag fe elwais ar arfer y Clwb o groesawu newydd-ddyfodiaid a chefais ymweliadau gan aelodau a'm gwahoddodd i'w cartrefi i gwrdd ag eraill dros goffi. Ar sawl achlysur hefyd cefais wahoddiad i fynychu cyfarfodydd fel gwestai. Ar ôl i'r cyfansoddiad gael ei newid er mwyn ehangu'r aelodaeth, roeddwn yn gallu ymuno, ac erbyn hynny roeddwn i eisoes wedi gwneud nifer o ffrindiau yn y Clwb. Edrychwn ymlaen at y cyfarfodydd oherwydd roedd yna gydbwysedd yn y rhaglen rhwng gwybodaeth, addysg ac adloniant.*

*Rhoddodd Clwb Merched y Coleg gyfleoedd gwych i fi i glywed anerchiadau a darlithiau ar ystod eang o bynciau a roddwyd gan arbenigwyr yn eu maes, a hefyd gyfle i gwrdd â'r siaradwyr hynny wedyn a sgwrsio â nhw. Roedd hefyd yn gyfle i gwrdd ag aelodau eraill a dod i'w hadnabod, yn ogystal â chael esgus i wisgo i fyny ychydig yn fy 'nillad dydd Sul' ar gyfer y cyfarfodydd gyda'r nos!*
**Judith Bray (1970-2014)**